

Adroddiad Ymgynghori Ysgolion yr 21ain Ganrif

YSGOL A CHANOLFAN ADNODDAU CAE'R DRINDOD



Cynnig: Ehangu Ysgol a Chanolfan Adnoddau presennol Cae'r Drindod, drwy adeiladu estyniad newydd ac ardal chwarae yn yr awyr agored, gyda dyddiad cwblhau disgwyliedig ym mis Medi 2023

Y Cyfnod Ymgynghori Ffurfiol: 14^{eg} Medi 2020 – 26^{ain} Hydref 2020

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018.



Richard Edmunds

Cyfarwyddwr
Corfforaethol Addysg a
Gwasanaethau
Corfforaethol

RHAGAIR

*"Gweithio gyda'n gilydd i sicrhau'r
canlyniadau gorau i BOB un o'n
plant"*

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi dechrau ar daith gyffrous ond heriol o welliannau a newidiadau. Mae gennym uchelgeisiau beiddgar i ddarparu'r cyfleoedd gorau mewn bywyd i bob dysgwr ac rydym yn ymrwymedig i wneud hyn drwy ddarparu addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel ar draws ein hysgolion fel rhan o'n Strategaeth 'Uchelgeisiau a Rennir'.

Rydym wedi canolbwyntio ar wella canlyniadau pobl ifanc ac mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen, gan ymgorffori barn holistaidd am addysg. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu 'Gwella cyfleoedd addysg i bawb' fel ei Amcan Lles cyntaf ac mae wedi ymrwymo i raglen fuddsoddi uchelgeisiol Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, mae Rhaglen Band B Ysgolion a Cholegau yr 21^{ain} Ganrif yn cefnogi buddsoddiad mewn addysg yn y Fwrdeistref Sirol. Ein huchelgais yw gwella cyflwr adeiladau ysgolion a galluogi'r defnydd cymunedol mwyaf.

Mae ein cynigion presennol yn cefnogi ein hymrwymiad i gynyddu effeithiolrwydd ysgolion a lleihau anghydraddoldeb mewn cyflawniad ar draws grwpiau; i ddeall anghenion plant sy'n fwy agored i niwed; hyrwyddo'r Gymraeg a chefnogi'r rhai na allant gael mynediad at lwybrau dysgu traddodiadol, er mwyn gwneud yn siŵr y bydd pawb yn elwa ar gyfleoedd dysgu a diwylliannol cyfoethog. Mae'r egwyddorion hyn yn helpu i lywio ein penderfyniadau a blaenoriaethu prosiectau.

Fel rhan o'r cynnig hwn, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Mae pob rhanddeiliad wedi cael cyfle i gyfranogi a gwneud sylwadau.

Cynhyrchwyd yr Adroddiad ar yr Ymgynghori hwn i grynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys adborth gan Estyn. Mae'n ceisio darparu dogfen gytbwys ac agored i gefnogi'r Cabinet i wneud penderfyniad i fwrw ymlaen â'r cynnig, gwneud newidiadau neu beidio bwrw ymlaen o gwbl.

Rwy'n gobeithio y bydd y ddogfen hon yn ddefnyddiol i chi fel adlewyrchiad o'r gweithgareddau a gynhaliwyd hyd yma ac yn rhoi syniad i chi o'n taith, siapio ein dulliau cyflenwi a sicrhau bod y ddarpariaeth dysgu yn ganolog yn ein cymunedau.

CYNNWYS	
Cyflwyniad	
➤ Crynodeb Gweithredol	Tudalen 4
➤ Goblygiadau Statudol	Tudalen 4
➤ Diben yr Adroddiad ar yr Ymgynghori	Tudalen 5
➤ Beth yw Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21 ^{ain} Ganrif?	Tudalen 5
Cynnig	
➤ Beth ydym ni'n cynnig ei wneud?	Tudalen 6
➤ Beth sy'n llywio'r cynnig hwn?	Tudalen 6
➤ Gwerthusiad o'r Opsiynau	Tudalen 7
➤ Manteision ac Anfanteision	Tudalen 8
Y Broses Ymgynghori	
➤ Y Broses Ymgynghori	Tudalen 9
➤ Goblygiadau COVID-19	Tudalen 9
➤ Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	Tudalen 10
➤ Gwybodaeth am yr Ymgynghori	Tudalen 11
➤ Dulliau Ymateb	Tudalen 12
Ymatebion i'r Ymgynghori	
➤ Ymatebion i'r Ymgynghori	Tudalen 13
➤ Ymateb Craffu ar Addysg	Tudalen 18
➤ Ymateb Estyn	Tudalen 19
➤ Egluro'r Ymgynghori	Tudalen 20
○ Meysydd o Bryder	
○ Meysydd o Gytundeb	
➤ Dewisiadau Amgen Rhesymol a Nodwyd	Tudalen 36
Llais y Dysgwr	
➤ Fersiwn Cryno – Plant a Phobl Ifanc	Tudalen 38
➤ Fideo'r Ymgynghori	Tudalen 38
➤ Ymgysylltiad Disgyblion / Cyngor Ysgol	Tudalen 39
○ Ysgol y mae'r Cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arni	
○ Ysgolion eraill y nodwyd eu bod wedi'u heffeithio	
Ystyriaethau Eraill	
➤ Strategaethau Lleol a Chenedlaethol	Tudalen 43
Y Camau Nesaf	
➤ Argymhelliad	Tudalen 44
➤ Gwneud Penderfyniadau	Tudalen 44
➤ Adrodd, Hysbysu a Chyhoeddi Gwybodaeth	Tudalen 44
Gwybodaeth Ategol	
➤ Atodiad 1: Ffurflen Adborth i'r Ymgynghori / Cwestiynau Cyffredin / Fideo	Tudalen 45
➤ Atodiad 2: Ymateb Estyn (Fersiwn Llawn)	Tudalen 45
➤ Atodiad 3: Ymatebion i'r Ymgynghori	Tudalen 47



Cyflwyniad

Crynodeb Gweithredol

Mae angen i ysgolion yng Nghymru fod mewn cyflwr da a'u bod yn addas ar gyfer darparu addysg. Mewn rhai achosion, gellir moderneiddio ysgolion, eu hatgyweirio, adnewyddu, ehangu neu eu hail-adeiladu'n rhannol i gyflawni'r safonau sydd eu hangen ar gyfer addysgu a dysgu cyfoes. Fodd bynnag, nid yw rhai o'r ysgolion presennol yn y sefyllfa gywir ac mewn achosion o'r fath gallwn gynnig ysgolion newydd neu newidiadau i ysgolion presennol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn anelu at barhau i godi safonau ysgolion a gwella ansawdd yr amgylchedd dysgu er mwyn creu ysgolion yr 21^{ain} ganrif sy'n addas i'r diben a rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn yng Nghaerffili.

Nodwyd Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod fel un o'r prosiectau blaenoriaeth cyntaf yn rhaglen Band B Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Ar gyfer cynigion sy'n gysylltiedig ag ysgolion, mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn darparu canllawiau statudol clir ar y prosesau y mae angen eu dilyn. Cynnal ymarfer ymgynghori yw un o'r camau cychwynnol yn natblygiad unrhyw gais ac mae'n ddarostyngedig i broses graffu gan Lywodraeth Cymru a chymeradwyaeth y Cabinet. O'r 14^{eg} Medi 2020 hyd at y 26^{ain} Hydref 2020, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori. Diben yr ymgynghori oedd casglu safbwyntiau ar y cynnig i gefnogi a buddsoddi yn estyniad Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod.

Yr Adroddiad ar yr Ymgynghori hwn yw'r dull a ragnodwyd gan God Trefniadaeth Ysgolion 2018 er mwyn myfyrio, adolygu ac asesu er mwyn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar y Cabinet i lunio penderfyniad gwybodus i fwrw ymlaen â'r cynnig i'r cam nesaf, diwygio'r cynnig gan ystyried gwybodaeth bellach sydd wedi dod i law drwy'r broses ymgynghori neu gau'r cynnig hwn.

Mae'r Adroddiad wedi'i rannu'n adrannau gwahanol, gyda'r nod o:

- Amlinellu'r prosesau ymgynghori a gynhaliwyd
- Darparu eglurhad mewn cysylltiad â'r wybodaeth a ddarparwyd a'r ymgysylltiad ag ymgynghoreion
- Crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion
- Cyflwyno ymateb llawn Estyn i'r ymgynghori
- Ymateb i faterion a godwyd drwy egluro, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau ategol

Goblygiadau Statudol

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn unol â gofynion [Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion \(Cymru\) 2013](#) a [Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018](#).

Cyhoeddir yr adroddiad ar yr Ymgynghori ar wefan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif Caerffili ac mae copïau papur ar gael ar gais. Cyhoeddir yr holl wybodaeth yn Gymraeg a Saesneg. Hefyd, cynhyrchwyd crynodeb sy'n addas i blant er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei darparu mewn fformat hygyrch i unrhyw blant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig.

Diben yr Adroddiad ar yr Ymgynghori

Mae cyhoeddi'r adroddiad hwn yn cyflawni dyletswydd y Cyngor yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Roedd y cyfnod ymgynghori'n cyflwyno cyfle i bobl ddysgu am y cynnig, holi cwestiynau a rhoi sylwadau. Ni chafodd unrhyw ymatebion negyddol a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori eu hystyried fel gwrthwynebiadau i'r cynnig ond fel sylwadau negyddol.

Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cofrestru gwrthwynebiadau i gynllun.

Mae'r Adroddiad ar yr Ymgynghori yn rhoi amlinelliad o'r prosesau a ddilynwyd, mae'n darparu eglurder ar y materion a'r sylwadau a dderbyniwyd gan yr ymgynghoreion, sicrhau bod safbwyntiau plant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig yn cael eu mynegi ac, yn y pen draw, mae'n darparu sydd ei hangen ar y Cabinet i wneud un o'r penderfyniadau canlynol:

- Bwrw ymlaen â'r cynnig
- Gwneud newidiadau i'r cynnig
- Peidio bwrw ymlaen â'r cynnig

Mae manylion llawn y broses o wneud y penderfyniad a chamau'r cynnig, fel y'u hamlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018, wedi'u cyhoeddi fel rhan o'r Ddogfen Ymgynghori gychwynnol ac mae ar gael i'r cyhoedd drwy wefan y Cyngor gyda chopïau papur ar gael ar gais.

Beth yw Rhaglen Ysgolion a Cholegau yr 21^{ain} Ganrif?

Mae rhaglen Ysgolion a Cholegau yr 21^{ain} Ganrif yn rhaglen buddsoddi cyfalaf strategol fawr a hirdymor. Caiff ei hariannu'n ar y cyd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ac mae'n ceisio creu cenhedlaeth o ysgolion yr 21^{ain} ganrif yng Nghymru.

Cynhaliwyd rhan gyntaf y rhaglen (Band A) o 2014 i fis Mawrth 2019.

Mae Caerffili wedi elwa'n fawr ar fuddsoddiadau yn rhaglen gychwynnol "Band A" Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif gyda thua £56.5 miliwn mewn ysgolion at ddefnydd addysgol a chymunedol.

Defnyddiwyd y cyllid Band A yng Nghaerffili i gyflenwi:

 Delwedd o Ysgol Islwyn	Enw'r Prosiect	Buddsoddi ad Band A
	✓ Ysgol Uwchradd Islwyn	£22.6 miliwn
	✓ Ysgol Gymraeg Cwm Rhymni, Campws Y Gwyndy	£19.2 miliwn
	✓ Ysgol Idris Davies 3-18	£8 miliwn
	✓ Estyniad Ysgol Trecelyn	£2.6 miliwn
	✓ Gwelliannau Ysgol Gyfun Coed Duon	£2 filiwn
	✓ Cae 3G Ysgol Gyfun Coed Duon	£865,000
	✓ Gwelliannau Ysgol Cae'r Drindod	£1.3 miliwn

Dechreuodd ail ran yr ariannu hwn (Band B) ym mis Ebrill 2019, gyda'r meysydd blaenoriaeth canlynol:

- Lleihau'r nifer o ysgolion sydd mewn cyflwr gwael
- Sicrhau bod gennym yr ysgolion o'r maint cywir yn y lleoliad cywir
- Darparu lleoedd digonol i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg
- Sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'r ystâd addysgol

Mae gwybodaeth bellach ar gael ar [dudalennau gwe Ysgolion yr 21ain Ganrif](#)



Cynnig

Beth ydym ni'n cynnig ei wneud?

Rydym yn cynnig:

- **Ehangu safle presennol Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod, drwy adeiladu adeilad estyniad newydd ac ardal chwarae yn yr awyr agored gyda dyddiad cwblhau disgwyledig ym mis Medi 2023.**
 - Bydd yr adeilad newydd arfaethedig yn darparu cyfleusterau ychwanegol i ddiwallu'r galw cynyddol am leoedd a darparu ystafelloedd dosbarth ychwanegol, ardaloedd ymyrraeth arbenigol ac ardal chwarae yn yr awyr agored
 - Cynigir y bydd y cyfleuster ychwanegol hefyd yn gartref i neuadd hyblyg newydd, pwll hydrotherapi a chyfleusterau chwarae meddal er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth ar y safle, a fydd hefyd yn cael ei ystyried i'w ddefnyddio gan y gymuned ar adegau addas yn unol ag amserlen y cwricwlwm.
- Gwneud yn siŵr y gall ddarparu ar gyfer anghenion newidiol a mwy cymhleth disgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar draws ardal y Cyngor, yn awr ac yn y dyfodol a sicrhau cydymffurfiaeth â deddf newydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).

Beth sy'n llywio'r cynnig hwn?

Mae cynigion wedi cael eu blaenoriaethu ar sail nifer o ffactorau gan gynnwys cyflwr adeiladu, tafluniad disgyblion a gyrwyr lleol a chenedlaethol, fodd bynnag, mae cyflenwi'r cwricwlwm a'r agenda Addysgol yn parhau i fod yn gwbl greiddiol.

Yn unol â'r Ddeddf ADY a Thribiwnlys 2018 mae gan ysgolion ac awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i nodi ADY a ddarpariaeth briodol i ddiwallu'r angen hwnnw. Fel y nodwyd yn y Ddeddf ADY a'r Cod ADY drafft, mae gan y Cyngor ac ysgolion gyfrifoldeb i adolygu'r ddarpariaeth sydd ar gael i ddiwallu angen yn y Fwrdeistref yn rheolaidd. Gall Anghenion Dysgu Ychwanegol fod ar sawl ffurf a gallant ymwneud ag un neu fwy o feysydd dysgu

gwahanol, megis cyfathrebu a gwybyddiaeth. Mae sbectrwm eang o Anghenion Dysgu Ychwanegol a allai fod gan blentyn neu berson ifanc, a gall y rhain newid a datblygu dros amser.

Mae gan holl ddisgyblion y Fwrdeistref Sirol yr hawl i dderbyn darpariaeth o ansawdd uchel sy'n diwallu eu hanghenion, waeth ble maent yn byw. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynhwysiant a'r egwyddorion y bydd anghenion mwyafrif y plant yn cael eu diwallu yn y brif ffrwd. Mae arfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn ganolog i nodi darpariaeth ddysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mae yna amgylchiadau lle mae'n well diwallu anghenion dysgu ychwanegol cymhleth, fel y'u nodwyd trwy asesu ac ymgysylltu cadarn â phlant a theuluoedd, o fewn darpariaeth arbenigol gyda'r addysgu, y gefnogaeth a'r cyfleusterau arbenigol priodol sy'n eu galluogi i gyflawni eu potensial. Mae Cae'r Drindod yn ysgol Arbennig sy'n darparu ar gyfer y disgyblion hynny sydd â'r angen mwyaf cymhleth.

Rydym wedi adnabod angen i fuddsoddi mewn gwella adeilad ein hysgol yn Ysgol Cae'r Drindod, i ateb y galw am addysg arbenigol ac adeiladu ar yr arfer rhagorol fel nodwyd gan Estyn. Y dyhead hwn sy'n gyrru'r cynnig hwn.



Gwerthusiad o'r Opsiynau

Mae cynllunio a datblygu cynigion effeithiol ar gyfer trefniadaeth ysgolion yn hollbwysig i nod Llywodraeth Cymru o drawsnewid byd addysg yng Nghymru a darparu canlyniadau addysgol gwell, gydag ymrwymiad i gynyddu effeithiolrwydd ysgolion a lleihau anghydraddoldebau mewn lefelau cyflawniad rhwng ardaloedd, grwpiau ac unigolion breintiedig a difreintiedig.

Mae gwerthusiad o'r opsiynau yn darparu cyfle i helpu cynghorau i wneud penderfyniad gwybodus ar sail tystiolaeth ar sut i gyflenwi gwasanaethau. Gwna hynny drwy ystyried manteision ac anfanteision cymharol nifer o fodelau cyflenwi gwahanol (gan gynnwys y ffordd

bresennol o gyflenwi'r gwasanaeth).

Mae'r fethodoleg yn helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i roi ystyriaeth gymharol i'r pwyntiau canlynol:

- Buddioldeb – y graddau y mae pob opsiwn yn cyflawni amcanion a blaenoriaethau strategol rhanddeiliaid
- Hyfywedd – y graddau y mae pob opsiwn yn hyfyw ac yn gynaliadwy'n ariannol
- Ymarferoldeb – y graddau y gellir gweithredu pob opsiwn.

Fel rhan o'r cyflwyniad o'r cynnig presennol, cynhaliwyd gwerthusiad o'r opsiynau.

Roedd y cam gwerthuso opsiynau yn galluogi i wahanol fodelau cyflenwi gael eu harchwilio a'u gwerthuso yn erbyn set o feini prawf penodol, a fyddai'n aros at ddewis yr opsiwn a ffafrir.

Cafodd yr opsiynau canlynol eu hystyried a'u sgorio: -

Opsiwn	Disgrifiad
Opsiwn 1	Gwneud dim
Opsiwn 2	Ail-gyflunio'r ysgol bresennol ymhellach
Opsiwn 3	Adeiladu darpariaeth ysgol gynradd newydd ar safle arall
Opsiwn 4	Adeiladu estyniad i'r ysgol bresennol a fyddai'n darparu 80 o leoedd ychwanegol (cynyddu'r gallu i 263)
Opsiwn 5	Adeiladu ysgol newydd ar safle arall a darparu ar gyfer yr holl ddarpariaeth a nodwyd a cohort llawn o 260 o ddisgyblion (presennol yn ogystal ag ychwanegol)

Darparwyd disgrifiad manwl o'r broses a ddefnyddiwyd yn y Ddogfen Ymgynghori gan arwain at ddewis **Opsiwn 4** fel yr opsiwn a ffefrir, sef **adeiladu estyniad newydd i'r ysgol bresennol a fyddai'n darparu 80 o leoedd ychwanegol**.

Byddai hyn yn darparu cyfanswm o 263 o leoedd ar safle'r ysgol bresennol, gan gymryd ystyriaeth o'r cohort disgyblion presennol o 183 o ddisgyblion ac 80 lle ychwanegol i sicrhau dyfodol y safle am nifer o flynyddoedd i ddod.

Trwy'r broses werthuso cyflwynwyd argymhelliad terfynol am y model cyflenwi a ffafrir i'r cyfnod Ymgynghori, gyda'r bwriad o ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a nodi blaenoriaethau o'u safbwynt hwy. Roedd y cam hwn yn rhan bwysig o'r broses, er mwyn codi cwestiynau pwysig ar gam cynnar, ac i helpu i ddatblygu cynigion mewn mwy o fanylder, er mwyn ystyried:

- a oes ffyrdd gwell i gyflawni eich amcanion?
- a oes ffyrdd gwell i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael?
- ai dyma'r ffordd orau i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir?

Manteision ac Anfanteision

Mae rhai heriau cyffredin y mae pob Awdurdod Lleol yn eu hwynebu wrth fabwysiadu cynigion newydd. Mae'r mwyafrif helaeth o bolisiâu'r Cyngor yn cael eu cyflenwi drwy brosiectau a rhaglenni amrywiol. Felly, mae'n hollbwysig bod prosiectau'n cael eu cyflenwi'n llwyddiannus er mwyn gwireddu'r manteision a fwriadwyd i ddinasyddion.

Mae tystiolaeth yn dangos mai'r ffordd orau i sicrhau proses gyflenwi lwyddiannus yw drwy sefydlu prosiectau yn gywir o'r dechrau. Achosion mwyaf cyffredin methiant yw: diffyg amcanion clir, adnoddau annigonol, costau ac amserlen gor-uchelgeisiol, ymhlith achosion eraill sydd wedi effeithio ar y lefel a'r swm o fudd y gellir ei gwireddu, ac y gellir eu hosgoi drwy fynd i'r afael â hwy yn ystod camau cynnar prosiect.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r cynnig, nodwyd nifer o fanteision ac anfanteision, fel y'u hamlinellwyd yn y Ddogfen Ymgynghori. Roedd y broses ymgynghori yn gyfle i ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol er mwyn deall beth oedd yn ganlyniadau cadarnhaol yn eu barn hwy a pha ganlyniadau negyddol y gellir eu creu.

Cynhaliwyd [Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg](#) ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned er mwyn dechrau'r drafodaeth ac i wahodd sylwadau a oedd cefnogaeth i'r egwyddorion ar gyfer y cynnig.

Mae pob un o'r sylwadau wedi'u cofnodi a byddant ar gael i'r Cabinet fel atodiad ar wahân i'r Adroddiad ar yr Ymgynghori hwn.



Y Broses Ymgynghori

Y Broses Ymgynghori

Mae'r broses ymgynghori wedi dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, a gyflwynir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Oherwydd bod y cynnig yn gysylltiedig ag 'addasiad rheoledig' i ysgol Arbennig o dan Adran 44 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae'r cynigion wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Goblygiadau COVID-19

Oherwydd goblygiadau COVID-19 ar yr adeg y bwriadwyd i'r ymgynghori hwn gael ei gynnal ac ar ôl derbyn cyngor gan Lywodraeth Cymru, ataliodd y broses ymgynghori hon rhag ymgymryd ag unrhyw sesiynau ymgynghori wyneb yn wyneb er mwyn cefnogi'r mesurau cadw pellter cymdeithasol a chynnal arferion gweithio diogel i bawb.

Dylid nodi nad oes unrhyw rwymedigaeth i ymgynghori wyneb yn wyneb ac felly cynhaliwyd ymarfer ymgynghori ysgrifenedig ar bapur er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei ddyletswydd o dan God Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Fodd bynnag, defnyddiwyd nifer o ddulliau ymgynghori amgen, gan gynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, technoleg amser wyneb a'r cyfle i holi cwestiynau i ffurfio rhan o'r Ddogfen ['Cwestiynau Cyffredin'](#) .

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Hysbyswyd yr ymgynghoreion ynghylch y cynnig ac argaeledd dogfennaeth yr ymgynghori pan gafodd ei weithredu ar y 14^{eg} Medi 2020 drwy lythyr/e-bost ac felly fe'u gwahoddwyd i gymryd rhan yn yr ymgynghori statudol:

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn nodi'r unigolion/grwpiau hynny yr ystyrir eu bod yn ymgynghoreion allweddol yn y broses ymgynghori. Mae'r rhestr isod yn cyflwyno'r ymgynghoreion yr ymgysylltwyd â hwy sy'n berthnasol i gynigion o'r natur hwn i Fwrdeistref Sirol Caerffili.

- Rhieni, darpar rieni, gwarcheidwaid a gofalmwr pob disgybl ysgol sydd wedi'u heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig
- Pennaeth, staff a llywodraethwyr ysgolion sydd wedi'u heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig
- Disgyblion/Cynghorau Disgyblion ysgolion sydd wedi'u heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig
- Cyfarwyddwyr Addysg pob ALL cyfagos – Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Casnewydd, Powys, Rhondda Cynon Taf, Torfaen
- Bwrdd Addysg yr Esgobaeth Gatholig
- Bwrdd Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru
- Y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (SACRE)
- Cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigiwr o'r farn y byddant yn debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig
- Aelodau Lleol CBSC
- Holl Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgolion sydd wedi'u heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig
- Gweinidogion Cymru
- ESTYN
- Cymdeithasau Addysgu
- Cymdeithasau Staff Cymorth
- Consortiwm De-ddwyrain Cymru (EAS)
- Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTA)
- Comisiynwyr Heddlu a Throseddau Gwent a De Cymru
- Cynghorau Tref a Chymuned Lleol
- Menter Iaith
- Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Rhwydwaith Rhieni
- Fforwm Addysg Cymru

Nid yw'r cynnig hwn yn effeithio ar ddarpariaeth iaith Gymraeg, felly nid oedd gan y Cyngor unrhyw rwymedigaeth i ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg yn yr achos hwn.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r effaith bosibl ar ysgolion eraill yn yr ardal, fodd bynnag, Ysgol Cae'r Drindod yw'r unig ysgol Arbennig yn y Fwrdeistref Sirol ac mae hefyd y tu hwnt i'r trefniadau derbyn safonol ar gyfer ysgolion. Mae dalgylch yr ysgol yn cwmpasu'r Fwrdeistref gyfan.

Roedd y broses ymgynghori yn cydnabod bod Cae'r Drindod yn gweithredu fel canolfan a'i bod yn hollbwysig i'r model 'prif ganolfan a lloerennau', sy'n cefnogi'r plant mwyaf cymhleth o fewn canolfannau adnoddau ac ysgolion prif ffrwd. Mae hyn yn cynnwys datblygu darpariaeth loeren

Roedd y Cyngor yn ymwybodol y byddai'r cynnig a'r opsiwn cyflenwi a ffafrir, fel y'i hamlinellir yn Nogfennaeth yr Ymgynghori yn golygu addasu'r cae rygbi talu i'w ddefnyddio ac y byddai'n gweithio'n agos gyda'r partïon â diddordeb i sicrhau mesurau lliniaru pe byddai'r cynnig yn derbyn cymeradwyaeth y Cabinet. Felly, yn ogystal â chynghori'r rhai y mae gennym rwymedigaeth i'w cynghori o dan y meini prawf rhanddeiliaid, cysylltwyd a chynghorwyd y canlynol ynghylch ein cynigion yn ysgrifenedig:

- Chwaraeon Cymru
- Clwb Rygbi Penalltau

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn datgan, wrth gynnal proses ymgynghori ar gynnig sy'n ymwneud ag ysgol, mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi gwybodaeth er mwyn galluogi proses dryloyw, gytbwys ac agored ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Mae'n rhaid cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar ddiwrnod ysgol ac mae'n rhai caniatáu o leiaf 42 diwrnod i'r ymgynghoreion ymateb i'r ddogfen, gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddyddiau ysgol fel y'u diffinnir gan Adran 579 Deddf Addysg 1996. Agorodd y cyfnod ymgynghori ddydd Llun 14^{eg} Medi 2020 (diwrnod ysgol) a daeth i ben am hanner nos, dydd Llun 26ain Hydref 2020.

Fel rhan o'r cynnig hwn, cafodd y ddogfennaeth ganlynol ei chynhyrchu:

- Llythyr Hysbysu'r Ymgynghori
- Dogfen Ymgynghori
- Crynodeb o'r Ymgynghori sy'n addas i Blant
- Fideo Ymgynghori
- Delwedd artist o'r ysgol newydd arfaethedig
- Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghori (Ar-lein)
- Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghori (PDF y gellir ei hargraffu)
- Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg



Cynhyrchwyd crynodeb a fideo o'r ymgynghori a oedd yn addas i blant er mwyn cefnogi'r broses ymgynghori gyda disgyblion yr ysgolion sy'n cael eu heffeithio ac sy'n cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd sy'n berthnasol i'w dealltwriaeth debygol hwy, ac a oedd yn eu galluogi i gyfranogi yn y broses ymgynghori a ffurfio barn wybodus. Yn ogystal â'r ddogfennaeth hon, fe ddarparodd Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif a staff addysgu lleol gymorth i'r plant a'r bobl ifanc a oedd yn dymuno cyflwyno ymateb i'r ymgynghori, sy'n arbennig o berthnasol oherwydd bod rhai o'r plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu Cae'r Drindod ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed yn y Fwrdeistref, ac mae ganddynt anghenion dysgu ychwanegol amrywiol.

Cyhoeddwyd yr holl ddogfennaeth yn Gymraeg a Saesneg, gan gydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg. Roedd gwybodaeth ar gael hefyd mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais, fodd bynnag, ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau o'r fath fel rhan o'r broses hon.

Cyflwynwyd copïau papur o'r ddogfennaeth i'r ysgolion a oedd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig, gan gynnwys crynodeb addas i blant i'w drafod gyda'r disgyblion.



Yn ogystal â hysbysu'r ymgynghoreion yn ysgrifenedig ynghylch y cynnig, cefnogwyd y broses o rannu gwybodaeth drwy wasanaeth negeseuon testun yr ysgol yn uniongyrchol i rieni a staff.

Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol y Cyngor hefyd. Rhyddhawyd negeseuon am yr ymgynghori mewn camau yn ystod 3 wythnos gyntaf yr ymgynghori, er mwyn hysbysu'r cyhoedd a darparu cyrhaeddiad mor eang â phosibl ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae cyrhaeddiad ar y cyfryngau cymdeithasol yn fetrig dadansoddi'r cyfryngau sy'n cyfeirio at y nifer o ddefnyddwyr sydd wedi dod ar draws cynnwys penodol ar lwyfan cymdeithasol, er enghraifft Facebook, YouTube neu Twitter.

Wythnos 1	Rhyddhau Fideo YouTube	CaerphillyCBCTV	684 o danysgrifwyr
Wythnos 2	Neges Facebook	@CaerphillyCBC	28,188 o ddilynwyr
Wythnos 3	Neges Twitter	@CaerphillyCBC	19.3k o ddilynwyr

Dulliau Ymateb

Fel yr amlinellwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, gallai unrhyw un a oedd yn dymuno gwneud sylwadau ar y cynnig wneud hynny'n ysgrifenedig drwy:

- Cwblhau ffurflen ymateb ar-lein ar wefan y Cyngor
- Cwblhau ffurflen ymateb a'i phostio at Dîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yng Nghaerffili
- Sylwadau e-bost i Dîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yng Nghaerffili

Cafodd y ffurflenni ymateb eu cynllunio mewn ffordd a fyddai'n casglu'r wybodaeth berthnasol a oedd ei hangen i gyflawni goblygiadau'r Cyngor yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ar gyfer

cynnal ymgynghori sy'n gysylltiedig ag addasiad rheoledig i ysgol arbennig.

Cynhaliwyd yr ymgynghori hwn er mwyn casglu barn yr ymgynghoreion ynghylch y cynnig i ail-leoli'r ysgol. Mae'r safbwyntiau hynny wedi'u hymgorffori yn y ddogfen hon, a byddant yn cael eu cyhoeddi a'u hystyried gan y Cabinet wrth benderfynu bwrw ymlaen i'r cam hysbysiad Statudol ai peidio. Cynhelir Proses Cais Cynllunio ar wahân mewn cysylltiad â'r cynnig hwn. Disgrifiwyd y prosesau statudol ar wahân yn y ddogfen ymgynghori ac mae unrhyw sylwadau negyddol a dderbyniwyd fel rhan o'r broses wedi'u cofnodi fel rhai negyddol.




Ymatebion i'r Ymgynghori

Ymatebion i'r Ymgynghori


Derbyniwyd cyfanswm o 1048 o ymatebion yn ystod y broses ymgynghori.

O'r dulliau a ddefnyddiwyd i ddarparu ymateb yn ystod y cyfnod ymgynghori:

- derbyniwyd 913 ymateb drwy arolwg ar-lein
- derbyniwyd 109 ymateb drwy e-bost
- derbyniwyd 26 ymateb drwy'r post




Ni ddychwelwyd unrhyw ymateb (0%) yn Gymraeg ac roedd y 1048 o ymatebion eraill (100%) yn Saesneg.



Ni chafodd Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif unrhyw gais i ddarparu'r dogfennau mewn unrhyw ffurf neu iaith arall.

CWESTIWN 1

Gofynnwyd i'r ymgynghoreion nodi categori a oedd yn eu disgrifio orau mewn cysylltiad â'r cynnig ar gyfer yr ysgol a oedd wedi'i heffeithio. Dewiswyd yr opsiynau a ddarparwyd i ddangos yr ymgysylltwyd â'r grwpiau allweddol o ymgynghoreion a amlinellwyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion.





12% Disgyblion	8% Rhieni	4% Aelod o Staff	1% Llywodraethwr Ysgol	1% Aelod Etholedig	74% Arall neu Ddim Sylw
-------------------	--------------	------------------------	------------------------------	--------------------------	-------------------------------

Ar gyfer y rhai a ddewisodd ‘arall’, rhoddwyd cyfle i ymhelaethu ymhellach, os oeddent yn dymuno hynny.

CWESTIWN 2

Fel rhan o'r broses ymgynghori, gofynnwyd am wybodaeth gysylltu sylfaenol, yn cynnwys enw, cyfeiriad ac e-bost. Roedd y data seicograffig yma'n cael ei gasglu fel cymorth i gael darlun o'r ymgynghoreion ac i alluogi tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif ddeall tueddiadau mewn data ymateb a grwpiau ymateb. Byddai hynny o gymorth i roi'r Adroddiad Ymgynghori hwn at ei gilydd.

Gan fod modd casglu gwybodaeth ar gyfer llawer o ddibenion, fe gyfeiriwyd at hysbysiad preifatrwydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer ymgynghori/arolygon. Mae'r hysbysiad yn rhoi amlinelliad o'r diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer casglu'r wybodaeth, defnyddio data a'r cyfnodau amser i gadw data.

Yng nghyswllt yr Adroddiad Ymgynghori, bydd y Cabinet yn cael crynodeb ar wahân o'r sylwadau a gafwyd wrth ymgynghori. Dylid nodi bod unrhyw sylwadau y barnwyd eu bod yn dramgwyddus neu'n rhoi arwydd o enw pwy oedd yn ymateb wedi eu tynnu neu eu golygu.

CWESTIWN 3

Fel rhan o'n dyletswydd o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, rhaid i'r ymgynghoreion gael y dewis i ofyn i gael eu hysbysu pan fydd yr Adroddiad Ymgynghori'n cael ei gyhoeddi. Fe gasglwyd gwybodaeth ar gyfer cysylltu â hwynt i'r diben hynny, a'r dewis cyntaf ar gyfer cysylltu fydd trwy e-bost, os cafwyd cyfeiriad e-bost oddi wrth yr ymatebydd.



Mae 541 o'r 1048 wnaeth ymateb wedi gofyn i gael eu hysbysu. Cafodd yr unigolion hynny eu hychwanegu at y rhestr hysbysu a byddwn yn cysylltu â hwynt ar yr un adeg â'r rhanddeiliaid pan ddaw'r ddogfen hon yn gyhoeddus trwy gyfrwng gwefan y Cyngor. Bydd copïau papur o'r dogfennau ar gael os gofynnir amdanynt.

CWESTIWN 4




Gall yr ymgynghoreion roi eu barn o blaid neu yn erbyn y cynnig.

Gofynnwyd i'r ymgynghoreion ddweud pa un o'r datganiadau a ganlyn sydd agosaf at eu barn nhw ar y cynnig. Fe'u hatgoffwyd i ddarllen y dogfennau ymgynghori cyn rhoi eu hymateb yn ystod yr ymgynghori, ac na fyddai sylwadau anffafriol a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori'n cael eu trin fel gwrthwynebiadau ar yr adeg honno.

Dyma'r dewisiadau a roddwyd:

- Dim barn gref y naill ffordd na'r llall
- Yn cefnogi'r cynnig
- Ddim yn cefnogi'r cynnig

O'r ymatebion a ddychwelwyd, roedd 447 yn cefnogi'r cynnig, nid oedd 582 yn ei gefnogi, nid oedd 16 yn teimlo'n gryf o blaid nac yn erbyn y cynnig ac ni ddewisodd 3 unrhyw un o'r opsiynau. Mae hynny'n cynrychioli 43% o blaid, 56% yn gwrthwynebu a rhoddodd 1% ymateb niwtral neu ddim sylw o gwbl.



Mae'n synhwyrol tynnu sylw'r Cabinet at y ffaith y gallai'r sylwadau a ddarparwyd fel rhan o Gwestiwn 5 gynnig agwedd ychwanegol o safbwyntiau'r ymgynghoreion ac na ddylid ystyried yr ymateb a roddwyd i Gwestiwn 4 yn unigol.

Cwestiwn 5

Roedd y cwestiwn hwn yn un blwch testun rhydd, a oedd yn rhoi cyfle i'r ymgynghoreion roi sylwadau ychwanegol ar y cynnig. Mae'r holl sylwadau a dderbyniwyd wedi'u darllen a'u dadansoddi.

Y themâu cyffredinol a ddaeth i'r amlwg o'r ymgynghori:

- Cydnabyddiaeth bod Ysgol a Chanolfan Adnoddau presennol Cae'r Drindod yn darparu cymorth ac ymyrraeth arbenigol o safon uchel
- Mae'r cynnig yn cefnogi'r galw cynyddol am ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol
- Pryderon ynghylch y defnydd arfaethedig o'r cae at ddibenion addysg nid hamdden
- Pryderon ynghylch yr effaith ar Glwb Rygbi Penalltau drwy golli incwm a'r trafodaethau lliniaru hyd yma
- Pryderon o golli gofod gwyrdd ac effaith hynny ar y gymuned leol
- Pryderon ynghylch colli'r statws baner werdd ar gyfer Parc Ystrad Mynach
- Pryderon llifogydd yn yr ardal leol ac effaith y cynnig
- Sylwadau ynglŷn â:
 - Ehangu'r safle, pam am allan ac nid i fyny?
 - Effaith llif traffig yn yr ardal
 - A fyddai adeiladu adeilad newydd mewn safle arall yn opsiwn gwell
 - Y broses ymgynghori sy'n cael ei dilyn

Cwestiwn 6

Yn unol â Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r ddogfen Canllawiau Ymgynghori a Monitro 2016, fe gynhwyswyd fersiwn byrrach o'r holiadur Cydraddoldeb a Monitro fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghori. Roedd hynny i gefnogi cynllunio effeithiol ac i sicrhau sampl cynrychioliadol er mwyn canfod unrhyw drafferthion o ran cydraddoldeb.

Fe gynhwyswyd y dewis o allu rhoi gwybodaeth yn ymwneud â Rhyw, Oed, Statws Anabledd, Sgiliau Iaith Gymraeg ac unrhyw ffactorau'n dylanwadu ar eu hymateb, ond nid oedd hynny'n orfodol.

Dyma'r canlyniadau ar gyfer y rhai wnaeth gwblhau'r adran Cydraddoldeb yn yr ymatebion:

Ydych chi'n ...			
Gwryw	418	Arall	133
Benyw	494	Gwell gennyf beidio dweud	3

Oedran			
O dan 16	25	40-65	351

16-25	135	Dros 65	60
26-39	303	Gwell gennyf beidio dweud	174

Anabledd			
Nid wyf yn Anabl	701	Anawsterau Dysgu	30
Nam Corfforol / Symudedd	41	Nam ar y Golwg	1
Nam ar y Clyw	13	Nam ar y Lleferydd	2
Gwell gennyf beidio dweud	226		
Arall	17		

Sgiliau'r Iaith Gymraeg				
	Ychydig	Cymedrol	Gweddol Dda	Rhugl
Siarad	391	62	30	57
Deall	364	79	30	56
Darllen	333	62	37	56
Ysgrifennu	332	54	28	51
Dim Sgiliau Iaith Gymraeg	639	Amharod i Ddatgelu	47	

Cwestiwn 7

Mewn cysylltiad â'r goblygiadau cydraddoldeb a nodwyd gan yr ymatebwyr, dywedodd 37 ymatebwr bod eu penderfyniad wedi'i ddylanwadu gan y rhestr yn y ffurflen ymateb i'r ymgynghori, er enghraifft:

- 'Mae gennyf ŵyr sydd ag anabledd dysgu ac rwy'n deall pwysigrwydd yr ysgolion hyn a'r gofal y bydd y plant yn ei dderbyn nes y byddant yn oedolion ifanc. Mae fy ŵyr a fy wyrion ac wyresau eraill yn defnyddio'r manau gwyrdd hefyd'
- 'Nid wyf yn siŵr a yw hyn yn berthnasol i'r arolwg?'
- 'Mae fy ymateb wedi'i ddylanwadu gan yr effaith uniongyrchol ar y gymuned.'

Ymateb Craffu ar Addysg

Mae Pwyllgor Craffu ar Addysg y Cyngor yn ymgynghori ar unrhyw ddatblygiadau polisi neu wasanaeth sy'n ymwneud ag Addysg yn y Fwrdeistref.

Cynhaliwyd cyfarfod digidol drwy Microsoft teams ddydd Mawrth 22^{ain} Medi 2020 am 5.30pm. Roedd 13 o'r 15 Cynghorydd yn bresennol.

Fel rhan o'r cyfarfod hwn, trafodwyd Rhaglen Band B Ysgolion a Cholegau yr 21^{ain} Ganrif a'r ymgynghori ar Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod. Darparwyd holl ddogfennaeth yr ymgynghori i'r aelodau fel rhan o becyn adroddiadau'r agenda ac roedd swyddogion a oedd yn ymwneud â'r cynnig ar gael i dderbyn cwestiynau.

Cytunwyd y byddai pleidlais yn cael ei chynnal ar y cynnig a fyddai'n cael ei chofnodi'n swyddogol i'w chynnwys yn yr Adroddiad ar yr Ymgynghori hwn. Pleidleisiodd aelodau'r Pwyllgor 12 o blaid y cynnig ar gyfer Ysgol a Chanolfan Adnoddau'r Cae'r Drindod, un yn erbyn a 0 atal pleidlais.



Mae recordiad o'r sesiwn ar gael ar YouTube:

[Cyfarfod y Pwyllgor Craffu ar Addysg](#)

Mae'r eitem ar yr agenda sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn yn dechrau 18 munud a 50 eiliad i mewn i'r recordiad.

Mae dogfen [Hysbysiad o'r Penderfyniadau](#) hefyd ar gael i'w ddarllen ar wefan y Cyngor.

Ymateb Estyn

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel y cynigiwr, anfon hysbysiad ynghylch yr ymgynghori at Estyn.

Estyn yw arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru a'u gweledigaeth hwy yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant a chanlyniadau i bob dysgwr yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddynt weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn cyflwyno unrhyw ofnion statudol i Estyn mewn cysylltiad â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel un o'r cyrff yr ymgynghorwyd â hwynt, bydd Estyn ond yn darparu eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig. Mae ymateb llawn Estyn wedi'i gynnwys fel Atodiad i'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, yn gryno:

"Mae'r cynnig yn ceisio mynd i'r afael â'r angen a nodwyd am gyfleusterau ychwanegol i ddarparu ar gyfer y galw cynyddol am leoedd a darparu ystafelloedd dosbarth ychwanegol, ardaloedd ymyrraeth arbenigol a lle chwarae awyr agored i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Cynigir y bydd y cyfleuster ychwanegol yn gartref i neuadd newydd a hyblyg, pwll hydrotherapi a chyfleusterau chwarae meddal i gynyddu'r ddarpariaeth ar y safle a gwella bywydau'r disgyblion gyda ddarpariaeth na ellir ei gynnwys yn yr adeilad presennol. Byddai'r ddarpariaeth newydd hon hefyd ar gael at ddefnydd y gymuned ar adegau addas.

Mae'r cynigydd wedi diffinio'n glir y budd o sefydlu'r cyfleusterau a'r ddarpariaeth ychwanegol hon ar gyfer disgyblion a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu yn unol â rhaglen yr awdurdod lleol i wella ei ddarpariaeth addysgol a diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag AAA. Mae'r cynnig hwn yn cynnig cyfle i ddisgyblion a phobl ifanc ag AAA gael profiadau addysgol arbenigol mewn lleoliad yn eu bwrdeistref sirol.

Mae cyllid eisoes wedi'i ddyrannu ar gyfer cyfran y cyngor o gostau cyfalaf y prosiect a bydd yn cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'u cylch gwaith ysgolion yr 21ain ganrif.

Barn Estyn yw bod y cynnig yn debygol o wella'r ddarpariaeth addysgol gyfredol ar gyfer plant a phobl ifanc ag AAA".

Mae'r Cyngor yn croesawu datganiadau Estyn sy'n cadarnhau y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth addysgol i'r rhai ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r Cyngor yn cydnabod ymateb Estyn ac mae'n dymuno darparu'r datganiad eglurhaol canlynol mewn cysylltiad ag arsylwadau Estyn ynghylch nad yw'r 'asesiad risg yn nodi unrhyw ystyriaethau addysgol' ac 'nid yw'n glir a fyddai'r profiadau addysgu a dysgu yn gwbl deg â ddarpariaeth

cyfrwng Saesneg. Y cynnig ar gyfer Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod yw ehangu'r ddarpariaeth bresennol a darparu ystafelloedd dosbarth, cyfleusterau ac ardaloedd ymyrraeth arbenigol ychwanegol, i'w defnyddio gan y disgyblion a'r gymuned ehangach. Rydym yn cydnabod bod yr adran ar asesu risg yn y ddogfen Ymgynghori yn canolbwyntio'n bennaf ar ystyriaethau strwythurol, er bod ystyriaethau addysgol yn bresennol drwy'r ddogfen gyfan a bydd adran fwy amlwg ar hyn yn cael ei chynnwys yn nogfennaeth y prosiect yn y dyfodol, a fydd yn seiliedig ar yr argymhelliad hwn. Mae darpariaeth i ddarparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, fel yr amlinellwyd fel rhan o'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg.

Egluro'r Ymgynghori

Wrth ddadansoddi'r sylwadau ymateb i'r ymgynghori a dderbyniwyd fel rhan o'r cyfnod ymgynghori, daeth nifer o bryderon a sylwadau oedd â lefel o gytundeb â'r cynigion i'r amlwg.

I gynorthwyo'r Cabinet gyda'r broses o wneud penderfyniad, darparwyd y wybodaeth ganlynol trwy ymateb i gael eglurhad gyda rhesymau ategol.

➤ Y meysydd pryder mwyaf

Maes pryder:	Pwyntiau a godwyd gan ymgynghoreion:
Colli man gwyrdd	- Datblygiad hanesyddol - Parc Ystrad Mynach - Statws Baner Werdd - Yr Effaith ar y Gymuned - Y Cae Rygbi
Nifer o weithiau y cafodd hyn ei nodi	199
Ymateb y Cyngor	
Mae'r Cyngor yn cydnabod bod 'colli man gwyrdd' wedi bod yn faes pryder sylweddol i nifer o'r ymgynghoreion wrth drafod y cynnig. Mae'n bwysig pwysleisio ar y cam hwn, er bod yr ymgynghoreion wedi crybwyll pryderon ynglŷn â hyn, roedd y mwyafrif ohonynt yn cydnabod yr angen i ddatblygu Ysgol Cae'r Drindod, ond nid yn y dull a amlinellwyd fel Opsiwn 4 yn y ddogfen Ymgynghori. Datblygiad hanesyddol Cyfeiriodd nifer o'r ymgynghoreion at y datblygiad hanesyddol ar dir 'maes glas' yn ardal Ystrad Mynach, gan ganolbwyntio'n benodol ar gyfleusterau sydd wedi'u hadeiladu'n agos at y safle arfaethedig. Mae Polisi Cynllunio Cymru, polisi cenedlaethol Llywodraeth Cymru sy'n darparu canllawiau ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio, yn darparu esboniad o'r gwahaniaeth rhwng tir maes glas a thir llwyd:	

Maes Gwyrdd	<i>'tir mewn ardaloedd adeiledig nad ydynt wedi'u datblygu'n flaenorol, er enghraifft parciau, tir hamdden a rhandiroedd'</i>
Tir Llwyd	<i>'tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol neu leoliad strwythur parhaol a seilwaith arwyneb sefydlog cysylltiedig'</i>

Dymuna'r Cyngor esbonio'r canlynol:

- Defnyddiwyd safle presennol Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod am y tro cyntaf mwy na 22 o flynyddoedd yn ôl a chafodd ei agor yn swyddogol ym mis Medi 1998.
- Agorwyd Ysbyty Ystrad Fawr yn swyddogol ym mis Mawrth 2012 a chafodd ei adeiladu ar ardal a oedd yn cynnwys tir a oedd wedi'i ddatblygu'n flaenorol yn bennaf, a ddisgrifiwyd fel tir 'llwyd' gyda thir 'maes glas' cyfyngedig a oedd yn dir hamdden.
- Agorodd y Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon yn swyddogol ym mis Mai 2014 a chafodd ei hadeiladu ar ardal hen strwythur parhaol (Ysbyty Ystrad Mynach) ac felly roedd wedi'i ddynodi'n dir llwyd.

Mae'r delweddau isod yn dangos golygfa o'r awyr o Ysgol Cae'r Drindod, Parc Ystrad Mynach a'r ardal gyfagos, sy'n dangos lefel y datblygiad dros 14 o flynyddoedd.

2006



2020



Parc Ystrad Mynach a Statws Baner Werdd

Mae Parc Ystrad Mynach wedi'i leoli i'r de o Ystrad Mynach oddi ar Heol Caerffili, CF83 7EP.



Mae'r Parc tua 11 hectar o dir gwyrdd agored gyda nifer o gyfleusterau sy'n cynnwys caeau rygbi a phêl-droed, cwrs tennis, lawnt fowlio ac ardal chwarae i blant. Hefyd, mae'r Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon wedi'i lleoli o fewn ffin y parc.

Bwriad y Wobr Baner Werdd yw cysylltu pobl gyda'r parciau a mannau gwyrdd gorau ac mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi y gall amgylchedd o ansawdd da gael effaith fawr ar ein cymunedau, ein hiechyd a'n llesiant a'r economi.

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn beirniadu'r statws Baner Werdd yn erbyn 27 o feini prawf gwahanol sydd wedi'u rhannu'n 8 adran:

Adran	Maen Prawf	Adran	Maen Prawf
Adran 1: Lle Croesawgar	Croeso Mynediad Da a Diogel Arwyddion Mynediad Cyfartal i Bawb	Adran 5: Bioamrywiaeth, Tirlun a Threftadaeth	Rheoli Nodweddion Naturiol, Fflora a Ffawna Gwyllt Cadwraeth Nodweddion Tirwedd Cadwraeth Adeiladau a Strwythurau
Adran 2: Iach a Diogel	Darpariaeth Briodol o Gyfleusterau a Gweithgareddau o Safon Offer a Chyfleusterau Diogel Diogelwch Personol Rheolaeth o Gŵn/Cŵn yn Baeddu	Adran 6: Cyfranogiad Cymunedol	Cyfranogiad Cymunedol i Reoli a Datblygu Darpariaeth Briodol ar gyfer y Gymuned
Adran 3: Wedi'i Gynnal a'i Gadw'n Dda ac yn Lân	Rheoli Sbwriel a Gwastraff Cynnal a Chadw Garddwriaeth Coedyddiaeth Cynnal a Chadw Adeiladau a Seilwaith Cynnal a Chadw Offer	Adran 7: Marchnata a Chyfathrebu	Marchnata a Hyrwyddo Cyfryngau Gwybodaeth Priodol Gwybodaeth Addysgol a Ddeongliadol Briodol

Adran 4: Rheolaeth Amgylcheddol	Rheoli Effaith Amgylcheddol Lleihau Gwastraff Defnyddio Cemegau Defnyddio Mawn Strategaethau Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd	Adran 8: Rheolaeth	Gweithredu Cynllun Rheoli
---------------------------------------	--	-----------------------	------------------------------

Eleni, mae 224 o barciau a mannau gwyrdd ar draws y wlad wedi derbyn y Wobr Baner Werdd a Gwobr Gymunedol y Faner Werdd, o barciau gwledig a gerddi ffurfiol, i randiroedd, coetiroedd a mynwentydd. Mae 7 man gwyrdd yng Nghaerffili wedi derbyn statws baner werdd, sef Parc Penalltau, Coedwig Cwmcarn, Parc Morgan Jones, Parc Cwm Darren, Parc Waunfawr, Parc Ystrad Mynach a Mynwent Brithdir.

Er bod y tir a nodwyd i'w ddatblygu fel rhan o'r cynnig hwn wedi'i leoli o fewn ffin y parc, mae'n cynrychioli 6% o'r ardal gyfan ac ni fydd addasu'r tir hwn yn cael llawer iawn o effaith ar yr amrywiaeth o amwynderau sydd ar gael. Cysylltwyd â Cadwch Gymru'n Daclus fel rhan o'r broses cyn cynllunio ac maent wedi datgan na fydd y cynnig hwn yn effeithio ar y statws Baner Werdd ar gyfer Parc Ystrad Mynach.

Effaith ar y Gymuned

Mae'r ymgynghoreion hefyd wedi datgan na fydd y defnydd ehangach a wneir o'r safle arfaethedig ar gyfer gweithgareddau hamdden sy'n cynnwys mynd â chŵn am dro, picniciau ac yn y blaen. Mae hyn wedi bod yn ystyriaeth o'r cynnig hwn.

Mae'r Cyngor yn gefnogol i fuddsoddi mewn adnoddau a all helpu pobl i fod yn egniol a chyfranogi i wella llesiant. Gwelir tystiolaeth o hyn gan y buddsoddiad sylweddol mewn caeau 3G o fewn radiws 5 milltir i Ystrad Mynach ac mewn addysg gynradd yn Ardal Ystrad Mynach (estyniad 2 ystafell ddosbarth yn Ysgol Gynradd Ystrad Mynach a datblygu estyniad 4 ystafell ddosbarth yn Ysgol Bro Allta).


Mae'r cynnig i ehangu Ysgol Cae'r Drindod yn ymgorffori cyfleusterau a fydd ar gael at ddefnydd ehangach y gymuned, er enghraifft neuadd a phwll hydrotherapi.

Mae'r cynnig yn ymwneud â 6% o ardal ehangach y parc a bydd yr ystod o gyfleusterau sydd ar gael yn y parc yn parhau i fod heb eu heffeithio ar gyfer gweithgareddau fel cerdded cŵn, picnic a chwarae, gan achosi'r effaith a'r lleihad lleiaf posib i'r gofod sydd ar gael i ymgymryd â gweithgareddau o'r fath yn y gymuned leol.

Y Cae Rygbi

Mae'r Cyngor yn darparu 116 o gaeau pêl-droed a rygbi a chwaraewyd mwy na 2,200 o gemau unigol arnynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd darparu lleoliadau diogel a diddorol ar draws y fwrdeistref ac mae'n chwilio am gyfleoedd i wella'r cyfleusterau presennol a datblygu darpariaeth newydd pan fydd angen yn cael ei nodi.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd y cynnig hwn yn effeithio ar gael gwared ar un o gaeau chwaraeon talu wrth ddefnyddio y Cyngor, sy'n cael ei ddefnyddio'n bennaf gan Glwb Rygbi Penalltau i chwarae rygbi, ac fe'i gelwir yn lleol yn Trinity 1.



Mae'n un o bum cae chwarae talu wrth ddefnyddio sydd ar gael ar y safle o fewn ffiniau'r parc.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol iawn o ganllawiau Polisi Cynllunio Cymru sy'n ymwneud â diogelu meysydd chwarae rhag cael eu datblygu, ac eithrio:

- *y cyfleusterau hynny y gellir eu cynnal a'u gwella drwy ailddatblygu darn bychan o'r safle;*
- *pan fydd darpariaeth â budd cymunedol cyfwerth yn cael ei chyflwyno'n lleol, gan osgoi unrhyw golli darpariaeth dros dro;*
- *mae gormod o ddarpariaeth o'r fath yn yr ardal.*

Mae gofynion Polisi Cynllunio Cymru'n cael eu hadleisio ym Mholisi CW82 Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor, ac mae'r Cyngor yn gweithio yn awr gyda Chlwb Rygbi Penalltau i ddarparu cyfleuster talu wrth ddefnyddio arall, oddi ar y safle ac o fewn cyrraedd cyfleus ar droed (0.4 milltir / 10 munud o gerdded) sy'n cynnwys un cae presennol wedi'i wella a chae ychwanegol i liniaru colli Trinity 1.

Mae'r Cyngor hefyd wedi buddsoddi'n ddiweddar mewn nifer o gaeau 3G pob tywydd o fewn radiws o 5 milltir i Trinity 1.

Lleoliad cyfleuster 3G	Pellter o Gae'r Drindod (T1)
Y Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon	0.2 milltir
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni (Gelli Haf)	2.2 milltir
Ysgol Lewis Pengam	2.8 milltir
Ysgol Gyfun Coed Duon	3.3 milltir
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni (Y Gwyndy)	4.2 milltir
Ysgol Gymunedol Cenydd Sant	4.7 milltir
Ysgol Uwchradd Islwyn	5.2 milltir

Mae'r cyfleusterau'n darparu cyfle i glybiau chwaraeon lleol chwarae a hyfforddi drwy'r flwyddyn. Gellir defnyddio'r caeau aml-ddefnydd ym mhob tywydd ac mae nifer o wahanol gampau yn eu defnyddio gan gynnwys pêl-droed a rygbi. Mae gan Glwb Rygbi Penalltau, a fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig hwn, archebion rheolaidd ac maent yn defnyddio nifer o leoliadau ar gyfer gemau ac i hyfforddi.

Maes pryder:	Pwyntiau a godwyd gan ymgynghoreion:
Lleoliad Amgen ar gyfer yr Ysgol	- Ehangu ar gae arall ar y safle - Adeiladu i fyny - Adeilad newydd mewn lleoliad arall
Nifer o weithiau y cafodd hyn ei nodi	188

Ymateb y Cyngor

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod nifer o opsiynau amgen wedi'u cynnig gan yr ymgynghoreion fel datrysiadau i'r galw cynyddol am gymorth arbenigol yng Nghae'r Drindod ond heb ymestyn i'r cae fel yr opsiwn a ffafrir.

Ehangu ar gae arall ar y safle

Cyfeiriodd yr ymgynghoreion at ehangu'r ysgol i gae arall. Er cyfleuster, cyfeirir at hyn fel Trinity 2.



Mae Trinity 2 hefyd o fewn ffin Parc Ystrad Mynach. Fel rhan o ddiwydrwydd dyladwy gwaith cynllunio'r prosiect, ystyriwyd ehangu i Trinity 2. Mae'r Cyngor o'r farn nad yw'r opsiwn hwn yn un hyfyw am nifer o resymau. Yn gyntaf, nid yw cae Trinity 2 yn ffinio â safle'r ysgol fel y dangosir yn y ddelwedd uchod ac felly ni fyddai'n bosibl creu'r ysgol unffurf 3-18 a ddymunir a byddai anawsterau mynediad a pharcio hefyd.

Wrth lunio'r cynnig hwn, rhoddwyd ystyriaeth i bolisi'r Cynllun Datblygu Lleol. Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) presennol ar 23 Tachwedd 2010 ac mae'n nodi lle bydd datblygiadau newydd, er enghraifft tai, cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol a ffyrdd yn cael eu creu. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau lleol ac mae'n cyfuno buddion datblygu a chadwraeth er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r defnydd o dir yn gyson ac yn darparu'r budd mwyaf i'r gymuned.

Mae'r CDLI yn cyflwyno polisiâu a chynigion y Cyngor i reoli datblygiadau yn y fwrdeistref sirol hyd at 2021 ac mae'n darparu'r sail ar gyfer gwneud penderfyniadau cyson a phriodol ar geisiadau cynllunio. Mae'r cynllun yn cyflwyno gwybodaeth glir ar y mathau o ddatblygiadau sy'n cael eu hannog a'r rhai a fydd yn cael eu gwrthod.

Mae gennym ddull sefydledig o gwrdd ag anghenion cymhleth sydd â lefel uchel o arbenigedd. Mae gan Gaerffili gontinwrm darpariaeth sy'n cynnwys cefnogi disgyblion ag anghenion llai sylweddol mewn dosbarthiadau prif ffrwd, hyd at Ganolfannau Adnoddau Arbennig, dosbarthiadau lloeren ac wrth gwrs Ysgol Cae'r Drindod.

Mae anghenion y plant sy'n mynychu Cae'r Drindod yn sylweddol a chymhleth a thrwy asesiad trylwyr nodir y ddarpariaeth fwyaf addas i'w chyflenwi drwy ysgol arbennig. Yn naturiol, anghenion y disgyblion ar brif safle'r ysgol (gwybyddol, ymddygiadol a meddygol) yw'r rhai mwyaf cymhleth yn y fwrdeistref sirol ac maent yn cael eu cefnogi'n dda gan dîm sy'n cynnwys staff o feysydd addysg ac iechyd (ffisiotherapyddion, Therapyddion Galwedigaethol, therapyddion iaith a lleferydd, dietegwyr, nyrsys arbennig o'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu Plant a Phobl Ifanc (CALDS) a'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) ac yn y blaen.

Nod y cynnig yw sicrhau ein bod yn parhau i adeiladu ar yr arweinyddiaeth a'r arbenigedd aeddfed ar y safle presennol, a datblygu hyn hyd yn oed ymhellach wrth sicrhau cydweithredu gyda chydweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Wrth ehangu'r model hwn ymhellach, gallwn ddatblygu'r gefnogaeth allgymorth i leoliadau eraill heb gyfaddawdu Ysgol Cae'r Drindod. Amlygir yr opsiwn hwn yn y cynnig fel y ffordd orau ymlaen. Hefyd, mae Ysgol Cae'r Drindod mewn lleoliad canolog, hygyrch ac yn agos at yr ysbyty.


Yn hanfodol, bydd y model hwn yn caniatáu i ni ymateb yn llwyddiannus i'n dyletswyddau cyfreithiol yn unol â'r Ddeddf ADY.

Maes pryder:	Pwyntiau a godwyd gan ymgynghoreion:
Llifogydd	- Y sefyllfa bresennol - Effaith y cynnig
Nifer o weithiau y cafodd hyn ei nodi	105
Ymateb y Cyngor	
Mae'r Cyngor yn cydnabod bod diogelu bywyd ac eiddo rhag y perygl o lifogydd yn bwnc emosiynol i lawer. Mae'r digwyddiadau llifogydd mawr a brofwyd ar hyd a lled y DU yn y blynyddoedd diwethaf yn ein hatgoffa i gyd o effeithiau dinistriol llifogydd. Yn ystod mis Chwefror 2020, profodd Cymru bedwar digwyddiad glawiad arwyddocaol yn dilyn cyfnod gwlyb iawn yn y gaeaf. Storm Ciara: 8 – 9 Chwefror 2020 Storm Dennis: 15 – 17 Chwefror 2020 Storm Ddieuw: 21 - 24 Chwefror 2020 Storm Jorge: 28 Chwefror – 1 Mawrth 2020 Nid yw Cymru wedi profi mis Chwefror gwlypach ers i'r cofnodion ddechrau ym 1862. Dyma hefyd oedd y pumed mis gwlypaf ar gofnod, a arweiniodd at rai o'r llifogydd mwyaf arwyddocaol yng Nghymru ers y 1970au. Er bod y cyfnod hwn wedi herio ac ymestyn gwytnwch pawb a fu'n gysylltiedig â'r ymateb, roedd hefyd yn gyfnod a ysgogodd y cymunedau a daeth cryfder y preswylwyr a'r ymatebwyr brys i'r amlwg.	

Y sefyllfa bresennol

Nid yw bwrdeistref sirol Caerffili yn wahanol i weddill y DU a gall bron unrhyw leoliad fod mewn perygl o lifogydd, hyd yn oed os nad ydych yn byw'n agos at afon.

Mae Trinity 1 (y safle arfaethedig) a Trinity 2 o fewn Parth B ar Fapiau Cyngor i Ddatblygwyr presennol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer perygl o lifogydd afonydd.



Delwedd trwy garedigrwydd [Map Cyngor i Ddatblygwyr Cyfoeth Naturiol Cymru](#)

Fodd bynnag, er bod Trinity 1 mewn perygl isel o brofi llifogydd o ddŵr arwyneb a chyrsgiau dŵr bychan, mae Trinity 2 mewn perygl uchel o brofi llifogydd o ddŵr arwyneb a chyrsgiau dŵr bach. Mae hyn yn cyd-fynd â hanes llifogydd y caeau.

Mae cae Trinity 2 yn ffurfio rhan o'r gorlifdir swyddogaethol presennol ar gyfer yr Afon Rhymni a'r isafonydd sy'n llifo drwy Barc Ystrad Mynach ac mae ar lefel is na Trinity 1. Fe uwchraddiodd y Cyngor system ddraenio'r Cae yn 2013 er mwyn i ddŵr allu llifo i gwrs dŵr bychan (nant) sydd yna'n llifo i'r Afon Rhymni. Pan fydd lefelau'r afon yn uchel, efallai na fydd yn bosibl i ddŵr glaw adael system ddraenio'r cae, gan achosi llifogydd ar y cae. Mae hyn yn atgyfnerthu'r rheswm pam na fyddai Trinity 2 yn ddewis amgen hyfyw oherwydd gallai gynrychioli risg sylweddol o ddwysáu materion llifogydd ar y safle.

Effaith y cynnig

Bydd yr estyniad arfaethedig yn cael ei ddylunio yn unol â Chanllawiau Statudol Draenio Cynaliadwy (SuDS) Llywodraeth Cymru, a gyflwynwyd yn Ionawr 2019. Nodau allweddol y canllawiau yw *lleihau difrod llifogydd a diogelu a gwella'r amgylchedd*. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd dŵr glaw sy'n disgyn ar yr ardal a ddatblygwyd yn cael ei wanhau a bydd cyfraddau llif dŵr oddi ar y safle yn arafu. Bydd y draenio arfaethedig yn cael ei adolygu a bydd angen i Gorff Cymeradwyo SuDS roi ei gymeradwyaeth cyn i unrhyw waith adeiladu ddechrau. Bydd angen Asesiad Canlyniadau Llifogydd ar gyfer y datblygiad arfaethedig, a bydd yr asesiad yn cael ei adolygu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau er mwyn sicrhau na fydd y datblygiad yn gwaethgu unrhyw lifogydd ar ffyrdd cyfagos.

Maes pryder:	Pwyntiau a godwyd gan ymgynghoreion:
Clwb Rygbi	• Effaith hanesyddol • Colli incwm • Effaith ar chwaraewyr • Y defnydd o'r caeau a'r Ganolfan Ragoriaeth • Opsiynau lliniaru • Sue Noakes / Llwybrau Cerdded
Nifer o weithiau y cafodd hyn ei nodi	185

Ymateb y Cyngor

Ae'r Cyngor yn gwerthfawrogi bod goblygiadau i'r cynnig i ddatblygu ar y clwb chwaraeon lleol, Clwb Rygbi Penalltau. Mae nifer o ymgynghoreion, y mae 185 wedi nodi eu bod yn aelodau neu'n gysylltiedig â chwaraewyr y clwb, wedi mynegi eu hamheuron.

Mae'r Cyngor wedi cynnwys y clwb fel un o'r ymgynghoreion ar gyfer y cynnig, ac mae wedi ymgysylltu mewn trafodaethau gyda'r clwb ers Tachwedd 2019, yn edrych ar opsiynau i liniaru'r effaith, fel y'i hamlinellir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Mae'r Cyngor yn dymuno darparu'r sylwadau canlynol mewn cysylltiad â'r meysydd penodol a godwyd gan yr ymgynghoreion.

Effaith hanesyddol

Mae'r Cyngor yn cydnabod, drwy fuddsoddiad blaenorol yn yr ardal leol, y cafodd Clwb Rygbi Penalltau ei ail-leoli. Gan weithio'n agos gyda'r clwb, darparwyd adeilad gwell a modern i'r clwb ar brydles i Glwb Rygbi Penalltau a darparwyd nifer o gaeau iddynt eu defnyddio.




Colli incwm

Mae ymgynghoreion wedi mynegi pryderon mewn cysylltiad â cholli incwm posibl o ganlyniad i'r cynnig hwn drwy lai o werthiannau lletygarwch yn adeilad y clwb pe byddai gemau'n cael eu chwarae mewn lleoliadau eraill.

Ni ddylai cael gwared ar y cae arfaethedig er mwyn ehangu Ysgol Cae'r Drindod gael unrhyw effaith arwyddocaol ar Glwb Rygbi Penalltau oherwydd mae'r lefel o ddarpariaeth sydd ar gael iddynt yn uwch na chlybiau eraill ac ar hyn o bryd maent yn defnyddio ystod amrywiol o gyfleusterau lleol. Yn y tair blynedd diwethaf, mae'r defnydd o Trinity 1 wedi cynrychioli 10% o'r defnydd taledig a gofnodwyd.

Defnydd o Glwb Rygbi Penalltau Archebion Taledig 2016/2017 - 2018/2019



Mae Clwb Rygbi Penallta yn credu bod y defnydd ar Trinity 1 yn fwy na'r hyn a amlinellwyd gan y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r ffigurau a ddyfynnir isod wedi'u cyfrif yn seiliedig ar gofnodion a gedwir gan y Gwasanaethau Parciau o ddefnydd wedi'i drefnu a'i dalu. Mae'r ffigurau a ddangosir o'r trefniadau llogi yn cynnwys cymysgedd o hyfforddiant a gemau.

Yn y 3 blynedd ddiwethaf, mae Clwb Rygbi Penalltau wedi talu'r Cyngor i chwarae ar Trinity 1 (y safle arfaethedig)

- 2016 / 2017 = 25 o archebion (2 Hŷn, 23 lau, 0 Mini)
- 2017 / 2018 = 31 o archebion (3 Hŷn, 28 lau, 0 Mini)
- 2018 / 2019 = 17 o archebion (1 Hŷn, 16 lau, 0 Mini)

Mae gan y Cyngor gofnod o'r archebion canlynol mewn lleoliadau eraill:

Y Ganolfan Ragoriaeth:

- 2016 / 2017 = 192 o archebion (90 Hŷn, 31 lau, 71 Mini)
- 2017 / 2018 = 222 o archebion (70 Hŷn, 71 lau, 81 Mini)
- 2018 / 2019 = 153 o archebion (70 Hŷn, 13 lau, 70 Mini)

Trinity 2:

- 2016 / 2017 = 21 o archebion (1 Hŷn, 20 lau, 0 Mini)
- 2017 / 2018 = 26 o archebion (0 Hŷn, 26 lau, 0 Mini)
- 2018 / 2019 = 15 o archebion (0 Hŷn, 15 lau, 0 Mini)

Trinity 3:

- Ni chofnodwyd unrhyw archebion

Sue Noakes 1 a 2:

- 2016 / 2017 = 9 o archebion (0 Hŷn, 9 lau, 0 Mini)
- 2017 / 2018 = 16 o archebion (0 Hŷn, 16 lau, 0 Mini)
- 2018 / 2019 = 48 o archebion (0 Hŷn, 48 lau, 0 Mini)

Hefyd, fel y nodwyd yn flaenorol a thrwy system archebu'r Adran Chwaraeon a Hamdden, gallwn gadarnhau bod y clwb hefyd wedi archebu slotiau rheolaidd ar gaeau 3G eraill yn y Fwrdeistref.

Yr effaith ar chwaraewyr

Mae'r Cyngor yn cefnogi chwaraeon cymunedol ac ar lawr gwlad mewn nifer o wahanol ffyrdd. O ddarparu cymorth grant i glybiau; buddsoddi mewn adnoddau a all helpu pobl i fod yn egniol; a mesur y cyfraddau cyfranogi diweddaraf. Fel y dangoswyd uchod, gwelwyd buddsoddiad sylweddol yn y ddarpariaeth 3G pob tywydd yn yr ardal, sy'n cael ei defnyddio gan y clwb a'r gymuned ehangach.

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd helpu pobl o bob oed i fod yn egniol ac fel y nodwyd, mae'n gweithio gyda'r Cyngor i ddarparu cyfleusterau gwell er mwyn sicrhau bod yr effaith yn cael ei lliniaru.

Defnyddio caeau a'r Ganolfan Rhagoriaeth

Mae'r Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon yn gyfleuster modern pob tywydd ar gyfer gwahanol fathau o chwaraeon. Agorwyd y ganolfan yn 2014 ac mae'n ased chwaraeon rhanbarthol pwysig. Mae cyfleusterau'r Ganolfan yn cynnwys cae rygbi 3G sydd wedi'i gymeradwyo gan yr IRB, cae pêl-droed 3G 2 seren FIFA, ystafelloedd gynadledda, ystafell cryfder a chyflyru ac ystafelloedd meddygol a chymorth cyntaf. Fel y gwelir yng ngraff defnydd y Cyngor a amlinellwyd yn flaenorol, roedd y defnydd o'r Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon yn cynrychioli cynnal 73% o gemau a hyfforddiant Clwb Rygbi Penalltau rhwng 2016/17 a 2018/19.

Opsiynau lliniaru

Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda'r clwb a rhanddeiliaid eraill i archwilio mesurau ffisegol i liniaru colli Trinity 1. Yn benodol, cynigir ar hyn y bryd y bydd:

Trinity 2 yn parhau i gael ei ddefnyddio fel y mae ac ystyrir ychwanegu goleuadau hyfforddiant yn amodol ar gyflawni goblygiadau statudol

Trinity 3 yn cael ei farcio fel cae ac y gosodir pyst


Creu cae gwell ar gyfer y chwaraewyr hŷn yn Sue Noakes gydag ardal i wylwyr, rhwystrau a goleuadau hyfforddi gwell, ynghyd ag ail gae

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, rhoddir ystyriaeth i sefydlu hyfywedd, buddion ac anfanteision datblygu diogelwch Meysydd Chwarae Cymru am byth i'r caeau a gedwir.

Sue Noakes / Llwybrau Cerdded

Fel yr amlinellwyd uchod, mae cyfleuster gwell yn Sue Noakes yn un o'r opsiynau lliniaru sy'n cael eu hystyried. Mae'r ymgynghoreion wedi nodi'r gwrthdaro rhwng ail-leoli'r cae Rygbi a'r defnydd pêl-droed presennol ar y safle. Ar hyn o bryd nid oes gan safle Sue Noakes unrhyw byst pêl-droed neu farciau penodedig er mwyn gallu defnyddio'r ardal hon i'r perwyl hwn ac felly mae'n agored i'w ddatblygu.

Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'r safle lliniaru arfaethedig yn Sue Noakes yn ffinio'n uniongyrchol ag adeilad y clwb, fodd bynnag, mae o fewn 0.5 milltir ac yn agosach na rhai o'r cyfleusterau 3G y mae'r clwb yn eu defnyddio ar hyn o bryd. Mae'r llwybr a amlinellir ar y map isod, yn hygyrch ar lwybrau cerdded ac mae lleoedd parcio ar y safle.



Maes pryder:	Pwyntiau a godwyd gan ymgynghoreion:
Rheoli Traffig	• Mynediad a pharcio • Llif traffig uwch yn y safle arfaethedig • Cludo disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch
Nifer o weithiau y cafodd hyn ei nodi	17

Ymateb y Cyngor

Fel rhan o unrhyw ddatblygiad, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu trefniadau rheoli traffig diogel, effeithlon ac effeithiol. Fel awdurdod priffyrdd, mae gennym ddyletswydd i reoli'r rhwydwaith ffyrdd er mwyn sicrhau, cymaint â phosibl, bod traffig yn symud yn ddiogel a chyfleus, sy'n cynnwys cerddwyr a defnyddwyr ffyrdd eraill sy'n agored i niwed. Rhoddir ystyriaeth i hyn fel rhan o'r broses gynllunio.

Mynediad a pharcio

Mae'r safle a nodwyd ar gyfer ehangu Ysgol Cae'r Drindod yn union ger y safle presennol, felly bydd trefniadaeth teithio presennol y dysgwyr yn parhau i fod yn weithredol pe byddai'r cynnig yn cael ei ddatblygu.

Yn ogystal, fel rhan o'r gwaith o gynllunio a dylunio'r estyniad, bydd llwybrau mwy diogel yn cael eu sefydlu gyda mannau casglu a gollwng newydd.

Llif traffig uwch ar y safle arfaethedig

Mae rheoli traffig yn cynnwys defnyddio mesurau i helpu i sicrhau bod traffig yn parhau i symud yn ddiogel. Darperir y mesurau hyn yn unol â'n polisi.

Bydd y cynnig hwn yn ddarostyngedig i broses cais cynllunio lawn a bydd ymgynghoreion amrywiol yn cael eu gwahodd i roi sylwadau, gan gynnwys yr Adran Priffyrdd.

Cludo disgyblion 'O'r tu allan i'r dalgylch'

Fel y nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, dalgylch Ysgol Cae'r Drindod yw'r Fwrdeistref Sirol ac ni fydd hyn yn newid fel rhan o'r cynnig hwn. Oherwydd yr anghenion dysgu arbenigol, mae pob disgybl yn cael eu cludo i'r safle ar hyn o bryd, gyda 98% ohonynt yn preswyllo o fewn dalgylch yr ysgol.

➤ Meysydd Cytundeb

Maes lle cafwyd cytundeb	Pwyntiau wnaed gan ymgynghoreion:
Galw Cynyddol	• Amcanestyniadau • Ymyrraeth arbenigol • Safonau'r cymorth
Nifer o weithiau y cafodd hyn ei nodi	227

Ymateb y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi'r lefel o gefnogaeth a fynegwyd gan yr ymgynghoreion i'r cynnig hwn a'r consensws cyffredinol bod galw cynyddol am ddarpariaeth arbenigol.

Rhaid i bob Cyngor yng Nghymru sicrhau eu bod yn darparu digon o leoedd ysgol ar gyfer disgyblion o bob oed er mwyn darparu addysg o'r ansawdd gorau sy'n cynnwys lleoedd sy'n diwallu anghenion y disgyblion ag unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

Fodd bynnag, gydag ymyriadau meddygol cynyddol soffistigedig mae plant yn goroesi yn hirach ac yn dod i'r ysgol yn 3 oed ag anghenion dysgu a meddygol cynyddol gymhleth. Mae'n debygol y bydd anghenion plant agored i niwed sydd â'r anghenion mwyaf arwyddocaol a chymhleth yn cael eu diwallu orau trwy ddarpariaeth arbenigol nad yw ar gael trwy'r brif ffrwd.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol amlasiantaeth yn y maes yn ogystal â'r ysgol, Dechrau'n Deg ac Ymwelwyr Iechyd. Gan ddefnyddio data o'r Gwasanaeth Integredig i Blant ag Anghenion Ychwanegol (ISCAN), mae panel lleoli bob pythefnos yn ymgynnull i gyfrifo nifer y lleoedd sy'n ofynnol ar y safle.

Wrth adolygu data hanesyddol sy'n gysylltiedig â phrosesau Statudol, nodwyd twf fel maes y mae angen gweithredu arno. Mae darlun tebyg ledled Cymru o ran niferoedd cynyddol o ddisgyblion sy'n cael mynediad i ysgolion arbennig.

Yn ogystal, penderfynir derbyniadau trwy Banel Lleoli Arbenigol, lle dilynir proses statudol i drafod anghenion unigol disgyblion. Mae hyn yn berthnasol i bob disgybl. Mae'r panel yn ystyried argymhellion ar gyfer lleoli gan roi ystyriaeth i'r meini prawf canlynol:

Mae'r wybodaeth hon wedi cefnogi'r cynnig i ehangu ac mae'n nodi y bydd yr 80 lle ychwanegol yn cael eu llenwi dros nifer o flynyddoedd ac yn ddigonol i ddiogelu'r ysgol yn y dyfodol am flynyddoedd i ddod.

Mae'r cynnig i ehangu Cae'r Drindod yn adeiladu ar brofiad ac ymrwymiad eithriadol yr ysgol wrth gefnogi sbectwm o anghenion a datblygu ethos hynod gynhwysol a chefnogol i bawb. Adlewyrchir hyn yn adroddiad arolygu Estyn 2019 lle cafodd Trinity Fields sgôr 'Rhagorol' ar draws pob un o'r 5 maes arolygu.

Maes lle cafwyd cytundeb	Pwyntiau wnaed gan ymgynghoreion:
Cyfleusterau Ychwanegol	• Mae angen mwy o gyfleusterau • Un lleoliad • Gwasanaethau Lluosog
Nifer o weithiau y cafodd hyn ei nodi	69
Ymateb y Cyngor	

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau bod gan bob dysgwr gyfle cyfartal, waeth lle y darperir yr addysg honno (fel y nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Erthygl 28)).

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn, a beth sy'n gweithio orau iddynt. Mae'r cynnig hwn yn cydnabod bod angen sicrhau bod cyfleusterau'n cael eu darparu sy'n gallu cefnogi a chyflenwi addysg o ansawdd uchel i'r disgyblion mwyaf agored i niwed. Bydd yr estyniad arfaethedig yn darparu cyfleusterau y gellir eu defnyddio gan yr ysgol, partneriaid ieuchyd a gofal cymdeithasol a'r gymuned.



Noder: Defnyddir y ddelwedd uchod at ddibenion eglurhaol a drafft yw'r dyluniad ar y cam hwn a bydd yn ddarostyngedig i gymeradwyo'r prosiect, cynllunio ac ymchwiliadau safle.

Bydd y cyfleusterau'n cynnwys mynedfa, ystafelloedd dosbarth, ystafelloedd aml-swyddogaeth newydd y gall cydweithwyr ieuchyd a Gofal Cymdeithasol eu defnyddio, ynghyd â nifer fach o ddesgiau poeth, Ystafell Deulu newydd, Rebound, Chwarae Meddal a Phwll Hydrotherapi newydd a Neuadd.

Yn ogystal, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn Ysgol Cae'r Drindod yn gallu cael mynediad at yr ystod ehangaf o gyfleoedd addysgol sydd ar gael, mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddarparu ystod o wasanaethau sy'n cefnogi datblygiad llesiant (corfforol ac emosiynol) mewn dull holistaidd o un lleoliad canolog yn y Fwrdeistref.

Maes lle cafwyd cytundeb	Pwyntiau wnaed gan ymgylgoreion:
Defnydd Cymunedol	- Mynediad at gyfleusterau i deuluoedd - Defnydd ehangach y Gymuned
Nifer o weithiau y cafodd hyn ei nodi	40
Ymateb y Cyngor	

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ymgynghoreion yn cydnabod pwysigrwydd mynediad at gyfleusterau i deuluoedd a defnydd ehangach gan y gymuned.

Mynediad at gyfleusterau i deuluoedd

Mae'r ysgol ar agor 51 wythnos y flwyddyn, 6 diwrnod yr wythnos. Fel rhan o'r cynnig, mae'r Cyngor wedi dangos yr angen i integreiddio asiantaethau allanol a hybu defnydd ehangach o gyfleusterau penodol yn ysgol Cae'r Drindod. Mae'r ysgol yn cefnogi cynllun seibiant a gwyliau hamdden i bobl ifanc, sesiynau dŵr i fabanod a grŵp sbondylitis hefyd ar hyn o bryd.

Nid yw teuluoedd wedi'u hynysu ond maent wedi'u cysylltu ag ysgolion. Teuluoedd yw sylfaen cymunedau ac maent yn chwarae rhan hollbwysig yn llesiant pob aelod o'r teulu. Mae llawer o deuluoedd sydd â phlant ag anabledd deallusol yn cael anhawster i gael y bywyd y mae eraill yn ei gymryd yn ganiataol.

Bydd y cynnig hwn yn gwella ac yn datblygu'r perthnasoedd â theuluoedd ymhellach, i roi ymdeimlad o lesiant iddynt a'u cymhwyso'n well i fyw bywydau hapus ac iach. I ddangos y pwynt hwn ymhellach, dywedodd un ymgynghorai:

'Fel rhiant byddwn yn gallu defnyddio'r pwll a'r ystafelloedd therapi rebound y tu allan i oriau'r ysgol a fyddai'n wych! Dewis cyfyngedig sydd gennyf o leoedd y gallaf fynd â fy mab, mae lleoedd sydd ag offer priodol ar gyfer plant anabl yn brin iawn. Byddai hyn yn fonws gwych a byddai'n cyfoethogi bywyd y teulu cyfan.'

Defnydd Ehangach y Gymuned

Un o nodau allweddol rhaglen Band B Ysgolion a Cholegau yr 21^{ain} Ganrif ac un o'r rhagofynion ar gyfer buddsoddi yw'r angen i *'sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'r ystâd addysgol, i'w defnyddio gan ysgolion a'r gymuned ehangach.'*

Dangoswyd yn y ddogfen Ymgynghori mai defnydd cyfyngedig a wneir gan y gymuned oherwydd y dyluniad presennol a'r angen i drefniadau diogelu a diogelwch fod ar waith.

Bydd y cynnig arfaethedig yn ystyried y dyhead i annog a hwyluso defnydd y gymuned o'r ased. I'r perwyl hwn, bydd y broses ddylunio'n ceisio cynnwys mesurau i allu creu ardaloedd diogel yn adeilad newydd yr ysgol, gan gynnwys neuadd a gofod ystafelloedd dosbarth aml-ddefnydd y gellir eu haddasu i'w defnyddio. Bydd hefyd yn atgyfnerthu ac yn diogelu hybu cynhwysiant a llesiant yn y Gymuned.

Dewisiadau Amgen a Nodwyd

Fel y nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, y cynnig sy'n cael ei ystyried yw ehangu'r ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Cae'r Drindod. Y dewis hwn oedd yr un a ffafrir yn y broses gwerthuso'r opsiynau a chafodd ei sgorio yn erbyn ffactorau llwyddiant critigol addasrwydd Strategol, addasrwydd Addysgol, Hygyrchedd, addasrwydd Ariannol ac effaith Amgylcheddol.

Drwy'r broses ymgynghori a'r sylwadau a ddychwelwyd, cafwyd cydnabyddiaeth o'r angen i fuddsoddi yn yr ysgol.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal asesiad pellach o'r cynnig. Diben yr asesiad pellach hwn yw ystyried unrhyw wybodaeth bellach sydd wedi dod i law drwy'r ymgynghori neu fel arall.

Yn ei adroddiad ar yr ymgynghori, mae'n rhaid i'r Cyngor esbonio ei asesiad o'r cynnig a'r dewisiadau amgen rhesymol a nodwyd, sut mae'r asesiad hwn yn wahanol i'r asesiad cynharach (os o gwbl) a'i asesiad o unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol. Yn olaf, mae'n ofynnol i'r Cyngor gadarnhau a yw o'r farn mai gweithredu'r cynnig (yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol) yw'r ymateb mwyaf priodol i'r rhesymau a nododd ar gyfer y cynnig a rhoi rhesymau dros ei gasgliad, gan gynnwys asesiad o'r effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, y gymuned a'r effaith ar drefniadau teithio gwahanol.

Codwyd yr opsiynau amgen canlynol drwy'r Ymgynghoreion.

Dewis Amgen a godwyd gan ymgynghoreion	
<i>Ehangu'r ysgol yn y lleoliad presennol ond ehangu i fyny yn hytrach nac am allan a'i wneud yn gyfleuster aml-lawr</i>	
Ymateb y Cyngor	
Mae'r Cyngor yn croesawu cydnabyddiaeth yr ymgynghoreion bod angen buddsoddi yn Ysgol Cae'r Drindod ac na fyddai'r adeilad presennol yn addas ar gyfer y galw cynyddol. Yn ychwanegol at y rhesymau strwythurol a nodwyd yn flaenorol yn y ddogfen hon na fyddai'n ymarferol adeiladu llawr arall ac y byddai'n cael ei ddiystyru fel opsiwn wrth symud ymlaen. Mae'r Cyngor hefyd wedi ystyried yr effaith ar ansawdd a safonau, y gymuned a threfniadau teithio. Byddai unrhyw waith a wneir i ddatblygu'r adeilad presennol fel yr awgrymwyd yn achosi amhariad i weithrediad yr ysgol o ddydd i ddydd, byddai'n golygu ail-leoli'r cohort presennol. Nid oes unrhyw leoliad arall yn y fwrdeistref sirol a allai ddarparu ar gyfer anghenion y disgyblion hyn.	
Asesiad y Cyngor o'r Dewis Amgen Rhesymol:	Penderfynu peidio defnyddio'r dewis hwn

Dewis amgen a godwyd gan yr ymgynghoreion	
<i>Ehangu'r ysgol ar gae arall yn y lleoliad presennol</i>	
Ymateb y Cyngor	
Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr Adroddiad ar yr Ymgynghori hwn, mae'r Cyngor yn ymroddedig i ddarparu cyfleusterau addysgol sy'n cyflawni anghenion ein disgyblion a chymunedau lleol. Mae'r awgrym gan ymgynghoreion i ehangu i safle arall (Trinity 2) wedi'i archwilio. Mae'r Cyngor hefyd wedi ystyried yr effaith ar ansawdd a safonau, y gymuned a'r trefniadau teithio sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Fel y dangoswyd uchod, mae'r ymarferoldeb ffisegol pam na fyddai'r opsiwn hwn yn ymarferol wedi'i amlinellu ac mae'n annhebygol y byddai'n sicrhau caniatâd cynllunio.	
Asesiad y Cyngor o'r Dewis Amgen Rhesymol:	Penderfynu peidio defnyddio'r dewis hwn

Dewis amgen a godwyd gan yr ymgynghoreion	
<i>Adeiladu ysgol Cae'r Drindod newydd mewn lleoliad amgen yn y fwrdeistref sirol</i>	
Ymateb y Cyngor	
Cafwyd awgrym gan nifer o ymgynghoreion y byddai adeiladu ysgol newydd yn opsiwn addas ar gyfer Ysgol Cae'r Drindod. Fel rhan o'r gwerthusiad o opsiynau a gynhaliwyd ar gyfer y cynnig hwn, ystyriwyd adeiladu cyfleuster newydd mewn lleoliad amgen fel Opsiwn 5. Nodwyd yr anfanteision canlynol, sy'n cynnwys ystyriaeth o'r effaith ar safonau, y gymuned a threfniadau teithio. • Amhariad i'r cohort presennol, y nodwyd eu bod yn ddysgwyr agored i niwed, drwy broses ail-leoli • Dymchwel adeilad ysgol sydd eisoes wedi derbyn arian buddsoddi Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif ac sy'n addas i gyflenwi addysg am flynyddoedd lawer i ddod. • Nodi tir hyfyw yn yr Awdurdod a'r costau a'r amser sy'n gysylltiedig â phrynu hyn Mae'n annhebygol y byddai panel Craffu a Buddsoddi Llywodraeth Cymru Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn cymeradwyo datblygiad ysgol newydd am na fyddai'n cyflawni ei nodau a'i amcanion e.e. dyblygu'r ddarpariaeth bresennol a'r goblygiadau ariannol. Mae'r cynnig presennol wedi'i gyflwyno mewn ffordd a fyddai'n lleihau'r effaith ar y cohort presennol, ac a fyddai'n adeiladu ar y cyflawniadau 'rhagorol' a nodwyd yn arolwg Estyn, a sicrhau'r un pryd bod y galw a nodwyd am addysg Arbenigol yn cael ei gyflawni.	

Yn ogystal, mae'r ysgol bresennol wedi derbyn buddsoddiad sylweddol i wella'r safle presennol wrth baratoi ar gyfer yr estyniad arfaethedig ac nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r angen i adeiladu adeilad ysgol gyfan newydd ar safle amgen. Felly, mae'r opsiwn amgen hwn eisoes wedi'i ddiystyru.

Asesiad y Cyngor o'r Dewis Amgen Rhesymol:

Penderfynu peidio defnyddio'r dewis hwn



Llais y Dysgwr

Mae gan bobl ifanc yr hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n effeithio arnynt ac i'w barn gael ei glywed a chael ystyriaeth briodol yn unol â'u hoed a'u haeddfedrwydd.

Fersiwn Cryno o'r Ymgynghori – ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod llais pobl ifanc yn ymwneud â'u cynnwys fel rhai sy'n cymryd rhan weithredol mewn datblygu, rheoli a gwella eu profiad addysgol ac fel myfyrwyr. Mae angen i hynny fod wrth galon y gwaith cynllunio, darparu ac arfarnu.

Paratowyd a chyhoeddwyd fersiwn cryno o'r brif ddogfen ymgynghori hefyd, a chafodd ei dargedu'n benodol at blant a phobl ifanc. Cyhoeddwyd y fersiwn cryno hwn ar-lein fel rhan o'r pecyn ymgynghori ac roedd copïau papur hefyd ar gael o'r ysgol ar gais.

Ysgolion yr 21ain Ganrif – Crynodeb o'r Ymgynghoriad ynghylch Plant a Phobl Ifanc

Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod
14 Medi– 26 Hydref 2020

Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools

CAERPHILLY
Ynys-ddir Cymru
Welsh Government

Helo, fy enw i yw Vision a dyma fy nghi, K9-Z1. Rydyn ni yma i drafod prosiect cyffrous gyda chi a hoffem ni glywed eich barn!

Yr hyn y byddwn yn ei drafod:

- Beth mae'r cyflwyniad yma yn ei gynnwys?
- Beth yw Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif?
- Beth mae'r prosiect yn ei gynnwys?
- Gyda phwy arall rydyn ni'n siarad?
- Sut gallwch chi leisio eich barn?
- Pam ei bod hi'n bwysig ein bod ni'n glywed eich barn?
- Pam ein bod ni'n am gynnwys y prosiect?
- A fydd hyn yn effeithio ar ysgolion eraill?
- Sut bydd y prosiect yn effeithio ar bethau fel...


- ✓ Addysg ac Ansawdd
- ✓ Llywodraethu a Staffio
- ✓ Cwtid
- ✓ Yr Iaith Gymraeg
- ✓ Tystio a'r Amgylchedd
- ✓ Cyfraddfifftau
- ✓ Cyfnewterau Arbenigol ac Anghenion Dysgu Ychwanegol
- ✓ Y Gymuned

- Beth fydd y manteision a'r anfantaision?
- A oes unrhyw risgiau?
- Pam dewis y prosiect yma?
- Am ba mor hir y byddwn ni'n casglu barn pob?
- Beth fydd yn digwydd nesaf?

Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools

Fideo'r Ymgynghori

Mae'r Cyngor yn cydnabod potensial pobl ifanc i gyfoethogi'r prosesau penderfynu, rhannu ffyrdd o edrych ar faterion a chymryd rhan fel dinasyddion a hwyluswyr newid.



Yng nghyswllt hynny felly, wrth baratoi'r Pecynnau Ymgynghori, bu disgyblion o'r ysgol yn cyfrannu at y cynnwys ac yn cymryd rhan yn y fideo ymgynghori.

Roedd cyfranogiad y disgyblion yn galluogi'r plant i gael cyfle i leisio eu barn ac i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu dysgu a'u llesiant.

Mae recordiad ar gael ar YouTube:

[Ymgynghori Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif Cae'r Drindod](#)


Cyngor Ysgol / Ymgysylltiad Disgyblion

Bydd Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yng Nghaerffili'n sicrhau bod trefniadau addas yn bodoli ar gyfer ymgynghori a chael disgyblion i gymryd rhan trwy gydol y broses wrth ddod ag unrhyw gynnig ymlaen.

Fel y nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, mae gan bron pob un o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Cae'r Drindod ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ar gyfer anawsterau dysgu difrifol, anawsterau corfforol a meddygol, anawsterau dysgu dwys a lluosog neu anhwylderau'r sbectwm awtistig. Mae gan Ysgol Cae'r Drindod gyngor ysgol gweithgar iawn ac mae'n gymuned gynhwysol iawn, lle mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u gwerthfawrogi. Gall y disgyblion chwarae rôl weithredol a dylanwadol yn siapio bywyd a gwaith yr ysgol.

Cafwyd cydnabyddiaeth yn gynnar iawn y byddai darparu cyfleoedd i'r bobl ifanc fynegi eu safbwyntiau am y cynnig hwn ac ymgysylltu â staff yn yr ysgol yn hollbwysig. Drwy lefelau gofal, cymorth ac arweiniad rhagorol yr ysgol a thrwy ddefnyddio fersiwn o'r ddogfen ymgynghori a fyddai'n addas i blant a'r fideo, bu'n bosibl ymgysylltu â'r plant mewn amgylchedd cyfarwydd, ar lefel ddeallusol briodol ac yn y fformat o'u dewis.

Rhoddodd llawer o'r plant sylwadau ar beth yr hoffent ei weld yn y dyfodol a'u barn am y cynnig. Fe gyfathrebodd llawer o'r disgyblion ar lafar, fodd bynnag, cofnodwyd tystiolaeth o'r hyn yr oedd disgyblion eisiau ei ddweud hefyd ar fapiau gwres, cyrchwr rheoli symudiad llygaid, symbolau a braille.



Darparwyd y delweddau uchod fel rhan o'r Sesiynau Ymgynghori â disgyblion yn Ysgol Cae'r Drindod.


Cofnodwyd nodiadau o bob sesiwn ac maent wedi'u cynnwys fel rhan o'r ymatebion i'r ymgynghori a gyflwynir i'r Cabinet. Pan ddarparwyd atebion mewn fformatau eraill, mae'r rhain wedi'u trawsgrifio air am air. Mae copïau gwreiddiol yn cael eu cadw'n ganolog yn yr ysgol ac mae copïau electronig ar gael i aelodau'r Cabinet ar gais.

Mae'r cwestiynau a godwyd gan ddisgyblion yn ystod y sesiynau hyn wedi'u hamlinellu isod:

- Ysgol y mae'r Cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arni

Ysgol Cae'r Drindod	
Cwestiynau	Ymateb y Cyngor
Pryd fydd yn barod? Faint o amser bydd yn ei gymryd? Pryd allwn ni symud i mewn?	Y cynnig yw i adran newydd yr ysgol agor ym mis Medi 2023.
A fydd yr un fath â'n hysgol ni?	Y cynnig yw ehangu'r ysgol bresennol felly bydd yr adran newydd yn newydd.
Lle fydd yr ysgol newydd?	Y cynnig yw ehangu'r ysgol i ardal y maes parcio a'r cae rygbi felly bydd yr ysgol yn yr un lle ag y mae yn awr, ond bydd yn fwy.
A fyddai'r adeilad newydd yn lle'r ysgol rydym ynddi yn awr?	Na, y cynnig yw ehangu'r ysgol bresennol.
A fydd yn fawr?	Bydd yr adeilad newydd yn gwneud yr ysgol gyfan yn fwy, bron i ddwbl ei maint yn awr.
Faint o ddosbarthiadau fydd yna?	Nid yw'r trefniant terfynol o ddyluniad mewnol yr ysgol newydd wedi'i gwblhau eto. Rydym yn gweithio ar ffigur o 10 ar hyn o bryd.

A fydd yna lyfrgell?	Bydd, mi fydd llyfrgell yna.
Allwn ni gael mwy o gyfrifiaduron a gliniaduron?	Bydd mwy o gyfleusterau TG yn yr ystafelloedd dosbarth newydd.
Allwn ni gael gwely dŵr?	Nid oes bwriad i gael un ar hyn o bryd ond, bydd Tîm Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif yn bwydo'r sylwadau hyn yn ôl i'r dylunwyr.
A fydd yr ardd goffa a'r ardal rhandiroedd yn ddiogel?	Penderfyniad y pennaeth fydd hyn.
A fyddwn yn gallu cadw'r rhandiroedd?	Penderfyniad y pennaeth fydd hyn.
A fydd gennym ni fwy o le i chwarae a bod yn egnïol?	Bydd, bydd ardal cwrt chwarae newydd.
I ble y bydd y cae rygbi yn cael ei symud?	Cynigir darpariaeth amgen ar safle Sue Noakes gerllaw.
A fydd y bechgyn rygbi yn iawn?	Rydym yn gweithio gyda'r clwb rygbi i edrych a allwn ganfod lleoedd eraill i chwarae.
Allwn ni ymweld â'r ysgol newydd?	Os ydych eisiau ymweld â'r ysgol os ydych eisoed wedi gadael, penderfyniad y pennaeth fydd hyn.



Delweddau o'r Sesiwn Ymgynghori a gynhaliwyd gyda disgyblion yn Ysgol Cae'r Drindod



Delweddau o'r Sesiwn Ymgynghori a gynhaliwyd gyda disgyblion yn Ysgol Cae'r Drindod

- Ysgolion eraill lle nodwyd y bydd y datblygiad yn effeithio arnynt

Oherwydd natur y ddarpariaeth yng Nghae'r Drindod, ni nodwyd unrhyw ysgolion unigol a fyddai'n cael eu 'heffeithio' gan y cynnig. Er hynny, cysylltwyd â Phenaethiaid pob ysgol yn y fwrdeistref yn ystod y cyfnod ymgynghori, lle trafodwyd y cynnig ymgynghori a rhoddwyd cyfle i'r disgyblion, y corff llywodraethu a'r staff yn yr ysgol ddarparu eu hymatebion fel rhan o'r broses ymgynghori. Pan gafodd gwybodaeth ei chyflwyno, mae'r ymatebion wedi'u cynnwys fel atodiad ar wahân sydd ar gael i'r Cabinet.



Ystyriaethau Eraill



"Ein cenhadaeth GENEDLAETHOL yw codi SAFONAU lleihau y blwch CYRHAEDDIAD a chyflenwi system addysg sy'n destun balchder a hyder CENEDLAETHOL."

*Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg*

Wrth i Gymru gychwyn ar weledigaeth newydd o lwyddiant i bob dysgwr, gallwn fyfyrto ar ein treftadaeth gyfoethog a'n hanes balch wrth hyrwyddo mynediad i addysg yng Nghaerffili. Mae ein diwygiadau trawsnewidiol yn digwydd mewn amgylchedd heriol. Mae hyn yn cynnwys yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â Brexit, y trawsnewid technolegol a'r dargyfeiriad yn y systemau cymwysterau ledled gwledydd y Deyrnas Unedig. Mae'r rhain i gyd yn heriau ac yn gyfleoedd i'r Cyngor.

Mae yna nifer o strategaethau lleol a chenedlaethol sy'n gyrru diwygiadau Addysgol ac sy'n tanlinellu'r rhesymeg dros ystyried y cynigion fel rhan o raglen Band B Ysgolion a Cholegau'r 21^{ain} Ganrif yng Nghaerffili.

- [Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 / Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#)
- [Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2017](#)
- [Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 \(Asesiadau Awdurdod Lleol\) \(Cymru\) 2016](#)
- [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)
- [Llywodraeth Cymru – Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl](#)
- [Llywodraeth Cymru - Cymraeg 2050: Cynllun Gweithredu Strategaeth y Gymraeg 2019- 2021](#)
- [Llywodraeth Cymru – Rhaglen Ysgolion a Cholegau yr 21^{ain} Ganrif](#)
- [Caerffili - Uchelgeisiau a Rennir Strategaeth Cyflawniad Addysg 2019 - 2022](#)
- [Caerffili - Strategaeth #Tîm Caerffili: Yn Well Gyda'n Gilydd](#)
- [Caerffili – Cynllun Strategol Addysg Gymraeg](#)
- [Caerffili - Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022](#)
- [Caerffili - Cynllun Corfforaethol \(yn cynnwys Amcanion Llesiant 2018-2023\)](#)
- [Caerffili - Strategaeth Addysg Ddewisol yn y Cartref \(EOTAS\) 2020](#)
- [Caerffili - Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024](#)
- [Caerffili - Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2019-2022](#)



Camau Nesaf

Argymhelliad

Wrth adolygu'r cynnig i ystyried unrhyw wybodaeth bellach a ddaeth i law drwy'r ymgynghori ac wrth ystyried yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg, y gymuned a threfniadau teithio gwahanol, argymhelliad yr adroddiad hwn yw bod y cynnig yn mynd rhagddo fel yr amlinellwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, sef:

Ehangu Ysgol a Chanolfan Adnoddau presennol Cae'r Drindod, drwy adeiladu estyniad newydd ac ardal chwarae yn yr awyr agored, gyda dyddiad cwblhau disgwyliedig ym mis Medi 2023

Gwneud Penderfyniad

Er mwyn cyflawni ein diwygiadau ar draws y system gyfan, bydd angen ymrwymiad beiddgar arnom ar gyfer cydweithrediad effeithiol ac integreiddio gwasanaethau pan fydd hynny'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru, y proffesiwn addysgu a'r gweithlu addysg ehangach, ein partneriaid allweddol mewn awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, gwasanaethau rhanbarthol, Estyn ac eraill. Bydd cyflwyno unrhyw gynnig yn llwyddiannus yn galw am ymgysylltiad effeithiol a gonest rhwng pob agwedd ar y system addysg a'n cymunedau lleol ac rydym yn ymrwymedig i ddarparu'r amodau a fydd yn galluogi i hynny ddigwydd.

Gofynnir i Aelodau'r Cabinet nodi'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Ymgynghori hwn a cheisio barn aelodau ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, gwneud newidiadau i'r cynnig neu beidio bwrw ymlaen â'r cynnig mewn perthynas â'r cynnig i i ehangu Ysgol a Chanolfan Adnoddau presennol Cae'r Drindod.

Adrodd, Hysbysu a Chyhoeddi Gwybodaeth

Pe bai'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi sy'n darparu cyfnod rhybudd o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn darparu bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgol yn cael cyfle i wneud hynny. Er mwyn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, rhaid cyflwyno gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig a'u hanfon at y Cyngor o fewn y cyfnod o 28 diwrnod.

Yna bydd y Cabinet yn ystyried canlyniad yr Hysbysiad Statudol mewn cyfarfod yn y dyfodol ac yn penderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig ar ôl rhoi ystyriaeth ddyledus i'r holl wybodaeth a ddarparwyd.

Os bydd gwrthwynebiadau, bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebiad yn darparu crynodeb o'r gwrthwynebiadau ac ymateb y Cabinet i'r gwrthwynebiadau hynny o fewn 7 diwrnod neu'r diwrnod y penderfynwyd ar y cynnig. Bydd yr adroddiad hwn ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor a bydd copïau papur ar gael ar gais.

Pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig, bydd Achos Busnes llawn yn cael ei gyflwyno i Weinidog Cymru i'w gymeradwyo'n derfynol a bydd y gwaith yn cychwyn.



Gwybodaeth Gefnogol

Atodiad 1 :

[Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghori](#)
[Cwestiynau Cyffredin yr Ymgynghori](#)

[Fideo'r Ymgynghori](#)
[Asesiad o'r Effaith ar Cydraddoldeb a'r Gymraeg](#)

Atodiad 2:



16.09.20 Estyn
response Trinity Field

Ymateb Estyn i gynnig Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i ehangu Ysgol a Chanolfan Adnoddau presennol Cae'r Drindod, drwy adeiladu estyniad newydd ac ardal chwarae yn yr awyr agored, gyda dyddiad cwblhau disgwylidig ym mis Medi 2023

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Cyflwyniad

Mae'r cynnig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Mae'r cynnig yn ceisio mynd i'r afael ag angen a nodwyd am gyfleusterau ychwanegol i fodloni'r galw cynyddol am leoedd a darparu ystafelloedd dosbarth ychwanegol, ardaloedd ymyrraeth arbenigol a gofod chwarae yn yr awyr agored ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Cynigir y bydd y cyfleuster ychwanegol yn cynnwys neuadd newydd a hyblyg, pwll hydrotherapi a chyfleusterau chwarae meddal i gynyddu'r ddarpariaeth ar y safle, a gwella bywydau'r disgyblion gyda darpariaeth na ellir eu cynnwys yn yr adeilad presennol. Byddai'r ddarpariaeth newydd hon ar gael ar gyfer defnydd cymunedol ar amseroedd addas hefyd.

Crynodeb / Casgliad

Mae'r cynigiwr wedi diffinio'n glir fanteision sefydlu'r ddarpariaeth a'r cyfleusterau ychwanegol hyn ar gyfer disgyblion a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig. Datblygwyd y cynnig yn unol â rhaglen yr awdurdod lleol i wella'i ddarpariaeth addysgol a diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r cynnig hwn yn cynnig cyfle ar gyfer profiadau addysgol arbenigol i ddisgyblion a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig mewn lleoliad yn eu bwrdeistref sirol.

Mae cyllid wedi cael ei neilltuo eisoes ar gyfer cyfran y cyngor o gostau cyfalaf y prosiect, a bydd yn cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'u cylch gwaith yn gysylltiedig ag ysgolion yn yr 21ain ganrif.

Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o wella'r ddarpariaeth addysgol bresennol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig.

Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigiwr wedi rhoi rhesymeg glir ar gyfer y cynnig. Mae'r cynigiwr yn datgan yn glir fod y cynnig wedi cael ei wneud er mwyn diwallu anghenion nodedig newidiol a mwy cymhleth disgyblion ag anghenion addysgol arbennig sy'n byw yng Nghaerffili, gyda'r nod o sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer disgyblion. Uchelgais yr awdurdod lleol yw gwella'r amgylchedd i greu ysgolion yn yr 21ain ganrif sy'n addas at eu diben. Mae'n ymddangos bod y cynnig yn nodi bod lle ar gyfer yr adeiladau newydd. Y safle arfaethedig ar gyfer lleoliad y gwaith yw darn o dir ger y safle presennol sy'n eiddo i'r awdurdod lleol ac a ddefnyddir at ddibenion hamdden. Mae'r tir dan sylw wedi'i ffurfweddu'n gae rygbi / pêl

droed ar hyn o bryd, sydd ar gael ar sail "talw wrth ddefnyddio". Fodd bynnag, bydd yr awdurdod lleol yn gweithio'n agos gyda'r clwb i edrych ar opsiynau posibl ar gyfer y 2 gae arall ar y safle, ac unrhyw gamau eraill sy'n cael eu hystyried yn briodol.

Bydd dylunio a rheoli'r gwaith yn cael cyn lleied o effaith ag y bo modd ar y prif gyfleusterau addysgu.

Mae'r cynigiwr yn diffinio'n glir beth mae'r cynnig yn ei olygu yn ymarferol, a'i fanteision disgwylidig. Bydd yr adeilad newydd arfaethedig yn darparu cyfleusterau ychwanegol i fodloni'r galw cynyddol am leoedd, a bydd yn darparu ymyrraeth dan do arbenigol a mannau chwarae yn yr awyr agored. Bydd y ddarpariaeth hon yn gwella'r ddarpariaeth a'r profiadau ar gyfer disgyblion.

Cynhaliwyd asesiad risg ynglŷn â rhoi'r cynnig ar waith, sy'n rhestru risgiau posibl, er enghraifft y broses gynllunio'i hun, effaith unrhyw gynllunio ar gost a rheoli prosiectau, a gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, nid yw'r asesiad risg yn nodi unrhyw ystyriaethau addysgol.

Hefyd, mae'r cynigiwr wedi ystyried yr anfanteision yn y cynnig o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Ni fyddai cynnal y sefyllfa bresennol yn gwireddu'r cyfleoedd o ran darpariaeth arbenigol yn y sir, ac ni fyddai'n lleddfu'r pwysau presennol i fynd i'r afael â'r galw am leoedd i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig cymhleth, ychwaith.

Mae'r cynigiwr wedi darparu tystiolaeth briodol i ddangos ei fod wedi ystyried dewisiadau eraill yn lle'r cynnig presennol, ac wedi rhoi rhesymau da ynghylch pam mae'r rhain wedi cael eu diystyru.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i bellterau teithio rhesymol ar gyfer disgyblion sy'n debygol o fynychu. Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod yw'r unig ysgol arbennig yn awdurdod lleol Caerffili, ac felly mae'r dalgylch ar gyfer yr ysgol yn aros yr un fath. Felly, nid oes unrhyw effaith ar amser teithio presennol. Darperir cludiant priodol am ddim i'r holl ddisgyblion sy'n mynychu darpariaeth arbenigol yng Nghaerffili.

Mae'n ymddangos bod y cynigiwr wedi ystyried y graddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg cymeradwy. Mae'n nodi nad oes unrhyw dystiolaeth o alw gan rieni am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, gan nad yw'r ysgol wedi derbyn unrhyw geisiadau am ddarpariaeth o'r fath. Mae'r ysgol yn deall ei chyfrifoldeb i gofnodi iaith y cartref yr holl ddisgyblion, ac yn mynd ati i gynnig darpariaeth Gymraeg os yw'r Gymraeg yn cael ei siarad fel iaith y cartref. Mae'r ysgol yn cyflogi nifer o athrawon a chynorthwywyr addysgu sy'n siarad Cymraeg, ac o'r herwydd, mae'r pennaeth a'r awdurdod lleol

yn hyderus y gellid cynnig darpariaeth effeithiol ar gyfer anghenion addysgol arbennig trwy gyfrwng y Gymraeg, pe bai angen. Fodd bynnag, nid yw'n glir p'un a fyddai'r addysgu a'r profiadau dysgu yn gwbl gyfartal o gymharu â'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth addas i effaith y cynnig ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'r cynigiwr yn nodi'n briodol fod Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod wedi cael ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn 2019. Cafodd yr ysgol farn rhagorol ym mhob maes arolygu. Mae'r adroddiad yn amlygu lleoliad effeithiol iawn, gydag arweinyddiaeth gref, sy'n darparu darpariaeth a phrofiadau dysgu rhagorol i'r holl ddisgyblion. Mae'r cynigiwr yn awgrymu y bydd rhoi'r cynnig hwn ar waith yn sicrhau bod yr ysgol yn parhau i adeiladu ar ei harfer ragorol bresennol. Hefyd, mae'r

cynigiwr yn cyfeirio at y ffaith fod Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod wedi bod yn ysgol werdd yn gyson o dan broses categoraiddio ysgolion Llywodraeth Cymru. O ganlyniad i bandemig presennol Covid-19, mae categoraiddio cenedlaethol wedi'i atal.

Bydd y ddarpariaeth arfaethedig yn sicrhau parhad arbenigol ar gyfer disgyblion o 3 -19 mlwydd oed sydd ag anawsterau dysgu difrifol, anawsterau corfforol a meddygol, anawsterau dysgu dwys a lluosog neu anhwylderau'r sbectwm awtistig. Hefyd, bydd y ddarpariaeth hon yn ychwanegu at, ac yn cefnogi, darpariaeth brif ffrwd anghenion addysgol arbennig ymhellach o fewn y fwrdeistref sirol. Yn ei dro, bydd hyn yn datblygu arbenigedd a gallu staff sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion addysgol arbennig, a bydd yn fuddiol i'w safonau a'u darpariaeth.

Dylai dylunio a rheoli'r gwaith sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar ddisgyblion a'r ddarpariaeth.

Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth hefyd yn darparu mwy o gyfleoedd i weithio gyda rhieni a gofalwyr, ac yn darparu cymorth iddynt. Hefyd, bydd y prosiect arfaethedig yn hwyluso defnydd cymunedol o'r adeilad. Mae'n ymddangos y bydd y ddarpariaeth hon yn diogelu hyrwyddo cynwysoldeb yn y gymuned.

Mae'n ymddangos na fydd y cynnig hwn yn cael effaith andwyol ar Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod. Byddai'n ymddangos bod nifer gynyddol o ddisgyblion yn sicrhau swyddi staff. Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r potensial i ehangu darpariaeth a chefnogi dysgu a datblygiad proffesiynol ymhellach.

Atodiad 3:

Ymatebion i'r Ymgynghori

Bydd Atodiad ar wahân i'r adroddiad hwn ar gael i'r Cabinet a fydd yn cynnwys manylion llawn y sylwebaeth a ddarperir gan ymgynghoreion yn ystod y broses ymgynghori. Bydd unrhyw wybodaeth adnabod yn cael ei dileu fel y nodwyd eisoes yn y ddogfen hon.